Rhif: WG29767

Llywodraeth Cymru

# Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad

# Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB

Chwefror 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron. Digidol ISBN: 978-1-4734-9136-6

**Ymgynghoriad ar Raglen o’r Newydd i Ddileu TB – Crynodeb o Ymatebion**

## 1. Yr Ymgynghoriad

### 1.1 Gwybodaeth Gefndir

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y Rhaglen Dileu TB yn 2008 i gyflawni’r nod hirdymor o ddileu TB buchol yng Nghymru. Mae’r Rhaglen wedi’i chynllunio i fynd i’r afael â phob ffynhonnell sy’n gallu cludo’r haint TB yn cynnwys gwartheg, bywyd gwyllt a rhywogaethau nad ydynt yn fuchol. Prif ffocws y Rhaglen oedd, ac yw cyflwyno mesurau i atal gwartheg rhag lledaenu’r clefyd ac ers dechrau’r Rhaglen mae’r drefn o brofi gwartheg wedi’i chryfhau llawer er mwyn canfod y clefyd cyn iddo gael cyfle i ledaenu. Rhwng mis Hydref 2008 a mis Rhagfyr 2009, cynhaliwyd profion TB ar bob buches yng Nghymru fel rhan o fenter Archwiliad Iechyd TB Cymru. Rhoddodd hwn “gipolwg” o sefyllfa’r clefyd ledled y wlad a thystiolaeth oedd yn gwarantu cyflwyno rhaglen brofi TB fwy llym. O fis Ionawr 2010, mae pob buches wedi ei phrofi’n flynyddol er mwyn cynnal y lefel uchel hon o oruchwyliaeth. Mae’n rhaid cynnal Prawf Cyn Symud ar wartheg hefyd cyn y gellir eu symud o fferm yng Nghymru (er bod rhai eithriadau).

Yn 2012, cyhoeddwyd y Fframwaith Strategol ar gyfer Dileu TB Gwartheg a oedd yn nodi ein hagenda ar gyfer camau gweithredu i’w cymryd dros gyfnod o 4 blynedd. Roedd yn cynnwys camau i ddarparu gwybodaeth am fuchesi sydd wedi’u heffeithio â TB, gwella’r gwaith o reoli achosion parhaus, newid y trefniadau iawndal a chynnal prosiect brechu moch daear yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yn y de-orllewin.

Er bod ein rhaglen i ddileu TB buchol yng Nghymru yn parhau i gyd-fynd â Chynllun Dileu TB y DU fel y’i cymeradwywyd gan y Comisiwn Ewropeaidd, daeth y Fframwaith Strategol ar gyfer Dileu TB Gwartheg i ben y llynedd. Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet ar yr Amgylchedd a Materion Gwledig, ei bod yn bwriadu diwygio’r Rhaglen Dileu TB gyda’r nod o gynnal llwyddiant ein Rhaglen, ac adeiladu ar y gyfres gynhwysfawr o fesurau sydd eisoes ar waith. Yn ei datganiad, cyhoeddodd y byddai Cymru’n mabwysiadu dull mwy rhanbarthol o ddileu TB fel rhan o’r agenda ddiwygiedig ac yn mabwysiadu dull cadarn o fynd i’r afael â buchesi sydd â TB cronig. Lansiodd ymgynghoriad 12 wythnos hefyd ar nifer o fentrau allweddol newydd.

### 1.2 Cynigion yr ymgynghoriad

Roedd y ddogfen ymgynghori’n cyflwyno nifer o gynigion i’w cynnwys mewn Rhaglen o’r Newydd ar gyfer Dileu TB gyda’r bwriad o lansio’r cyfeiriad hirdymor a’r pecyn o fesurau datblygedig hyn yn ystod gwanwyn 2017. Bydd y Rhaglen ddiwygiedig yn adeiladu ar ein dull o ddileu TB yng Nghymru ac yn ei gryfhau.

- **Dull rhanbarthol o ddileu’r clefyd**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys mesurau i’w defnyddio ym mhob un o’r ardaloedd TB:

**Ardaloedd TB Isel**

- Parhau i gynnal trefn brofi TB flynyddol a defnyddio’r prawf gama interfferon (IFN-γ) ym mwyafrif y buchesi wedi’u heintio â TB (prawf IFN-γ gorfodol ym mhob achos newydd).
- Bydd pob buwch sy’n cael ei symud **i’r Ardal TB Isel** yn gorfod cael prawf cyn symud a phrawf ar ôl symud.
- Ni fydd rhaid i’r holl wartheg sy’n symud **o fewn ac o Ardal TB Isel** gael prawf cyn symud bellach.
- Profion bob chwe mis i rai buchesi risg uchel (a nodwyd gan ffactorau risg).

- Cynnig ac annog un ymweliad Cymorth TB i bob ceidwad yn yr Ardal TB Isel. Bydd ymweliadau Cymorth TB yn cael eu cynnig i fuchesi wedi'u heintio â TB.
- Bydd Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol mewn buchesi sydd â statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu yn cael eu hailbrofi gan ddefnyddio'r prawf IFN-γ (bydd anifeiliaid positif yn cael eu symud a bydd Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes).
- Adolygu'r defnydd o Unedau Pesgi Eithriedig gyda golwg ar eu gwahardd neu eu caniatáu o dan do yn unig.
- Gwahardd Unedau Pesgi Cymeradwy (AFU).
- Monitro lefel yr haint mewn moch daear.

**Ardaloedd TB Canolradd**

- Parhau i gynnal trefn brofi TB flynyddol a defnyddio'r prawf IFN-γ ym mwyafrif y buchesi wedi'u heintio â TB (prawf IFN-γ gorfodol ym mhob achos newydd o statws TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OFTW)).
- Bydd pob buwch sy'n symud **o fewn, rhwng ac o'r Ardal TB Ganolradd** yn gorfod cael prawf cyn symud.
- Bydd rhaid i'r holl wartheg sy'n symud **i Ardal TB Ganolradd** o Ardal TB Uchel neu Ardal TB Ganolradd arall gael prawf ôl symud.
- Profion bob chwe mis i rai buchesi risg uchel (a nodwyd gan ffactorau risg).
- Bydd Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol mewn buchesi sydd â statws heb TB Swyddogol wedi'i ddiddymu yn cael eu hailbrofi gan ddefnyddio'r prawf IFN-γ (bydd anifeiliaid positif yn cael eu symud a bydd Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes).
- Caniatáu Unedau Pesgi Cymeradwy ac Unedau Pesgi Eithriedig Dan Do.
- Adolygu'r defnydd o Unedau Pesgi Eithriedig gyda golwg ar eu gwahardd neu eu caniatáu o dan do yn unig.
- Cynnig ymweliadau Cymorth TB i fuchesi wedi'i heintio â TB.
- Annog brechu moch daear pan fydd y brechiad ar gael.

**Ardaloedd TB Uchel**

- Profi'r fuches gyfan bob chwe mis.
- Bydd pob buwch sy'n symud **o fewn, rhwng ac o'r Ardal TB Uchel** yn gorfod cael prawf cyn symud (dim prawf ar ôl symud).
- Defnyddir mesurau rheoli symud buches mwy cyfyngedig.
- Parhau i ddefnyddio'r prawf IFN-γ yn ad hoc ym mhob achos newydd a cronig o fuches wedi'i heintio â TB.
- Mae prawf IFN-γ yn orfodol i fuches OFTW sydd wedi'i heintio â TB yn y 18 mis blaenorol a defnyddir ail brawf IFN-γ pan ganfyddir lefel uchel o'r clefyd mewn grwpiau rheoli.
- Cael gwared ar Adweithyddion Amhendant safonol fel adweithyddion ym mhob achos OFTW (bydd Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes).
- Ni fydd modd defnyddio'r prawf clir sy'n codi cyfyngiadau symud TB o fuches fel prawf cyn symud.
- Bydd Hysbysiadau Gwella Bioddiogelwch yn cael eu rhoi ar gyfer pob achos o OFTW yn yr ardal, yn gofyn i geidwaid wella eu bioddiogelwch yn unol â'r gofynion.
- Caniatáu Unedau Pesgi Cymeradwy ac Unedau Pesgi Eithredig Dan Do.
- Gweithio tuag at ehangu Cymorth TB i gynnig cyngor milfeddygol pwrpasol am ddim i bob buches yn yr ardal.
- Ystyried a datblygu ffyrdd o dorri'r cylch trosglwyddo rhwng gwartheg a moch daear lle gellir dangos bod moch daear yn cyfrannu at y broblem mewn buchesi sydd â TB cronig.

**Cynigion eraill**

- Datblygu pecyn bioddiogelwch safonol ar-lein.
- Cyflwyno terfyn iawndal o £5,000.
- Gostwng iawndal ceidwaid sydd am symud gwartheg rhwng unedau o fewn yr un fuches mewn buchesi sydd â TB cronig.
- Parhau i adolygu system iawndal TB.
- Cysylltu cydymffurfiaeth ymhellach â thaliadau cymhorthdal cynllun y Polisi Amaethyddol Cyffredin (neu unrhyw gynlluniau cymhorthdal yn y dyfodol.
- Cynigion Unedau Pesgi - bydd rhaid i Unedau Pesgi Eithriedig gydymffurfio â rheolau mwy llym neu ni fydd Unedau Pesgi Eithriedig yn cael eu caniatáu yn yr Ardal Risg Isel mwyach. Unedau Pesgi Cymeradwy i barhau i gael eu gwahardd yn yr Ardal TB Isel.
- Cadw, ond adolygu ein dull goddefol cyfredol o oruchwylio TB buchol mewn anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol.
- Cyflwyno system Prynu Gwybodus sy'n debyg i'r System Masnachu ar Sail Risg sydd ganddynt yn Seland Newydd ac a arferai gael ei defnyddio yn Awstralia.
- Ailedrych ar drefniadau llywodraethu'r Rhaglen Ddileu TB.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried 5 cwestiwn mewn perthynas â'r cynigion hyn:

1. Ydych chi'n cytuno ag unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen hon?
2. Ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r cynigion yn y ddogfen hon?
3. A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau am sut i wella'r mesurau rheoli a gynigir yn y ddogfen hon neu am y ffordd orau o'u rhoi ar waith?
4. A oes unrhyw fesurau rheoli eraill y dylem eu hystyried i helpu i gyflawni nodau'r ddogfen hon?
5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau am gynigion penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar agweddau eraill ar y Rhaglen Dileu TB, nodwch nhw isod.

**1.3 Ymatebwyr**

Cafwyd 993 o ymatebion o amrywiaeth o sectorau yn cynnwys y diwydiant ffermio, y proffesiwn milfeddygol, arwerthwyr da byw, buddiannau bywyd gwyllt ac aelodau'r cyhoedd. Roedd 431 o ymatebion wedi'u cyflwyno ar ffurf deiseb (4 deiseb wahanol).

Roedd y 562 ymateb unigol fel a ganlyn:

353 gan ffermwyr/ceidwaid
24 gan gynrychiolydd/sefydliad yn y diwydiant ffermio
52 gan filfeddygon
17 gan arwerthwyr da byw
2 gan sefydliadau lles
17 gan sefydliadau bywyd gwyllt
19 yn unigolion 'eraill'
32 yn aelodau'r cyhoedd
46 heb nodi

Deiseb 1 – trefnwyd gan gymdeithas ddienw – 160 o lofnodion.
Deiseb 2 – trefnwyd gan 'cynhyrchwyr gwartheg Cymru' – 234 o lofnodion.
Deiseb 3 – trefnwyd gan 'pesgwyr a chaffaelwyr nifer fawr o wartheg stôr ar Ynys Môn' – 16 o lofnodion.
Deiseb 4 – trefnwyd gan gymdeithas ddienw – 21 o lofnodion.

Mae rhestr o ymatebwyr yn Atodiad 1. Gofynnodd rhai ymatebwyr i Lywodraeth Cymru beidio â chyhoeddi eu hymatebion/manylion; mae'r rhain wedi'u tynnu o'r rhestr.

Roedd cyfran fawr o lofnodion y deisebau'n annarllenadwy, felly mae'r rhai a gyflwynodd ymateb ar ffurf deiseb wedi'u heithrio o'r rhestr hefyd.

## 2. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r crynodeb hwn yn canolbwyntio ar sylwadau a wnaed ar y cynigion a amlinellwyd uchod a fyddai'n rhan o Raglen o'r Newydd ar gyfer Dileu TB. Mae'n darparu crynodeb cynrychioliadol o'r materion allweddol a godwyd gan ymatebwyr am y cynigion ymgynghori a materion eraill sy'n rhan o'r Rhaglen Dileu TB ehangach.

Gan fod yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ar nifer o gynigion cymhleth, llawer ohonynt yn drawsbynciol, mae sylwadau ymatebwyr yn cael eu cynnwys yn erbyn y cynigion lle maent yn perthyn orau. Yn sgil natur yr ymgynghoriad, ni all y crynodeb hwn fod yn gofnod llawn o'r holl faterion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cynhwysfawr hwn.

Yn ystod y broses ymgynghori gofynnodd llawer o'r ymatebwyr am esboniad o'r cynigion ac o agweddau eraill ar y Rhaglen Ddileu TB. Roedd gan nifer o'r ymatebwyr gamsyniadau am y Rhaglen hefyd. Mae atebion i'r cwestiynau a godwyd ac ymatebion Llywodraeth Cymru i'r camsyniadau wedi'u hamlinellu yn Atodiad 2.

## 3. Newidiadau a gyhoeddwyd eisoes

Fel rhan o'i datganiad ar 18 Hydref 2016, cyhoeddodd Lesley Griffiths, Ysgrifennydd y Cabinet, y byddai Llywodraeth Cymru'n diwygio ei Rhaglen Dileu TB ac y byddai hyn yn cynnwys dull rhanbarthol newydd o ddileu TB. Mae'r map o'r rhanbarthau newydd yn Atodiad 3.

Er nad oedd y bwriad i rannu Cymru'n rhanbarthau at ddibenion y Rhaglen Dileu TB yn destun ymgynghoriad cyflwynodd nifer o ymatebwyr sylwadau ar y cysyniad o rannu Cymru'n 3 chategori o Ardaloedd TB a'r diffiniad o'r ardaloedd hynny. Mae'r sylwadau ar y dull rhanbarthol wedi'u hamlinellu yn adran 4.

Fis Hydref y llynedd, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd y byddai'r camau gweithredu parhaus i dargedu buchesi sydd wedi'u heintio â TB yn barhaus neu ers amser maith yn cael eu hymestyn i achosion ailadroddus hefyd. O ran achosion o TB cronig mewn buches, bydd cynlluniau gweithredu pwrpasol yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â'r ffermwr, y milfeddyg a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion. Yn yr achosion o TB cronig mewn buchesi mewn ardaloedd lle ceir llawer o achosion o TB lle gellir dangos bod moch daear wedi cyfrannu at y broblem, bydd Llywodraeth Cymru'n cydweithio â milfeddygon ac arbenigwyr bywyd gwyllt i ddatblygu ffyrdd o dorri cylch trosglwyddo'r clefyd rhwng y ddwy rywogaeth. Pan fo tystiolaeth yn awgrymu bod moch daear yn cyfrannu at y broblem mewn achosion o TB cronig mewn buchesi mewn ardaloedd lle ceir llawer o achosion o TB, ystyrir dal moch daear mewn cewyll a'u lladd mewn modd trugarog.

Roedd ymdrin â'r clefyd mewn poblogaethau o foch daear yng Nghymru yn rhan o'r cynigion i'w cynnwys ym mhob Ardal TB:

**Ardal TB Isel** – Monitro lefel yr haint yn y boblogaeth foch daear;

**Ardaloedd TB Canolradd** – Annog brechu moch daear (pan fydd y brechlyn ar gael);

**Ardaloedd TB Uchel** – Ystyried a datblygu ffyrdd o dorri'r cylch trosglwyddo rhwng gwartheg a moch daear pan ellir dangos bod moch daear yn cyfrannu at y broblem mewn achosion o TB cronig mewn buchesi.

## 4. Sylwadau cyffredinol ar rannu Cymru'n rhanbarthau at ddibenion y Rhaglen Dileu TB.

Cytunodd llawer o'r ymatebion fod angen mabwysiadu dull rhanbarthol o ddileu TB yn sgil y gwahanol lefelau o'r clefyd a'r ffactorau gwahanol sy'n ysgogi'r clefyd ledled Cymru. Teimlwyd y dylid cael dull hyblyg o bennu'r ardaloedd er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn nifer yr achosion, fel bod modd symud plwyfi ar yr ymyl i ddosbarth is neu fel arall. Nododd llawer o ymatebwyr yr angen i adolygu'r ardaloedd yn rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y clefyd a'r risgiau.

Cytunodd llawer fod angen profion mwy deallus ym mhob ardal er mwyn diogelu statws clefyd yr ardaloedd lle ceir llai o achosion ac i leihau'r clefyd yn yr ardaloedd lle ceir mwy o achosion. Cytunodd llawer ei bod hi'n hanfodol sicrhau nad yw symudiadau gwartheg yn lledaenu'r clefyd i'r Ardal TB Isel, a'r Ardaloedd TB Canolradd i raddau. Roedd llawer oedd yn cefnogi'r dull rhanbarthol yn cydnabod y byddai rheoli busnesau sydd â ffermydd mewn 2 Ardal TB neu fwy yn gymhleth.

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull rhanbarthol, ond yn dweud y dylid ei gydbwyso â dull effeithiol o ymdrin â moch daear heintiedig.

Roedd gan lawer o ymatebwyr bryderon am fabwysiadu dull rhanbarthol ac nid oeddynt yn cytuno â'r diffiniad o'r ardaloedd na'r derminoleg a ddefnyddiwyd i ddisgrifio'r ardaloedd.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Mae'r dull yn debygol o greu dryswch, yn enwedig ar y ffiniau rhwng ardaloedd ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Roedd rhai'n credu y gallai'r newidiadau effeithio ar fasnach, yn enwedig rhwng Cymru a Lloegr. Byddai hyn yn cael sgil effeithiau ar farchnadoedd ac yn newid grymoedd a phrisiau'r farchnad i wartheg Cymreig.
- Bydd y dull yn rhoi ffermwyr yn yr Ardaloedd TB Canolradd ac Uchel o dan anfantais gan y bydd yna ganfyddiad eu bod yn 'fudr' ac y byddent yn derbyn llai o arian am eu gwartheg na'r rhai yn yr Ardal TB Isel.
- Mynegwyd pryder na fyddai ffermwyr yn yr ardaloedd TB uwch yn gallu gwerthu cynhyrchion cig a llaeth i archfarchnadoedd.
- Mae'r dull yn debygol o effeithio ar fasnach a gallai marchnad 2 neu 3 haen gael ei chreu o fewn Cymru'n unig.
- Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr yn arbennig at y diwydiant buchod sugno sy'n dirywio a sut y byddai'r dull rhanbarthol yn arwain at dranc y diwydiant yng Nghymru.
- Bydd ffermwyr sydd wedi treulio blynyddoedd yn datblygu stoc pedigri yn cael eu dibrisio a ffermwyr yn yr Ardaloedd TB uchel yn cael eu stigmateiddio.
- Dylid cael cyn lleied o ffiniau â phosibl.
- Bydd marchnadoedd da byw yn dioddef yn sgil y dull rhanbarthol.
- Gallai hyn greu'r dybiaeth bod ffermio mewn rhai ardaloedd o Gymru yn ddrutach nag mewn ardaloedd eraill. Gallai hyn gael canlyniad anfwriadol o ran olyniaeth a denu newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant.
- Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (RWAS) yn datgan bod y ddogfen ymgynghori'n aneglur ynghylch yr union gyfyngiadau ar symud a fyddai'n cael eu

mabwysiadu rhwng ardaloedd ac mae ganddi bryderon mawr am allu arddangoswyr i gael mynediad i'w thri digwyddiad mawr ac arddangos eu gwartheg ynddynt.

Cyflwynodd nifer o ymatebwyr nifer o awgrymiadau am ddull gwahanol:

- Byddai dull Cymru gyfan cyson yn haws i'w ddeall ac yn haws i'w weithredu'n ymarferol.
- Mae Cymru'n rhy fach i'w rhannu pan fo problem TB yn bodoli drwy'r wlad i gyd.
- Dylid canolbwyntio ar ffermydd unigol yn lle dull rhanbarthol.
- Defnyddio Safonau Ardystio Iechyd Gwartheg i bennu risg y fuches wrth ystyried symudiadau buchesi.
- Mae'r ardaloedd yn rhy fawr – dylid mabwysiadu system lefel plwyfi.
- Dylid dynodi Cymru gyfan yn Ardal TB Uchel.
- Dylid rhannu Cymru yn ôl rhanbarthau Iechyd Anifeiliaid.
- Ni ddylai'r Ardal TB Uchel ymwthio i'r Ardal TB Isel. Er bod ychydig o wartheg yn yr ardal hon, mae'r canfyddiad yn anghywir. Dylid ymestyn yr Ardaloedd Canolradd i greu parth clustogi. Hefyd, nid yw creu ffin yn Sir y Fflint rhwng Ardaloedd Isel a Chanolradd yn adlewyrchu'r rhaniad rhwng buchesi eidion a godro yn yr ardal.
- Dim ond 2 gategori Ardal TB ddylid ei gael; Canolradd ac Uchel. Dylid dosbarthu'r Ardal TB Isel fel Canolradd gan y byddai'n rhoi mwy o ddiogelwch ac yn gwneud yr ardal yn llai agored i fwy o achosion o'r clefyd yn y dyfodol.
- Mae'r dull rhanbarthol yn rhy aneglur. Mae angen ystyried uchder y fferm yn ogystal â chanlyniadau profion y gorffennol wrth benderfynu ar y mesurau mwyaf priodol i'w defnyddio ar ffermydd.

## 5. Mesurau i'w cynnwys mewn dull rhanbarthol o Ddileu TB.

### 5.1 Ardal TB Isel

**<u>Parhau i gynnal trefn brofi TB flynyddol a defnyddio'r prawf IFN-γ ym mwyafrif y buchesi wedi'u heintio â TB</u>**

Roedd y sylwadau cyffredinol yn cefnogi'r dull hwn, yn enwedig y defnydd estynedig o'r prawf IFN-γ er mwyn canfod yr haint yn gynt. Fodd bynnag, roedd rhai'n anghytuno â'r defnydd cynyddol o'r prawf IFN-γ i gynyddu sensitifrwydd profi.

**<u>Bydd pob buwch sy'n cael ei symud i'r Ardal TB Isel yn gorfod cael prawf cyn symud a phrawf ar ôl symud</u>**

Cafwyd sylwadau cymysg ar brofion cyn symud a phrofion ar ôl symud ar wartheg sy'n cael eu symud i'r Ardal TB Isel.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Ni ddylid gorfodi profion ar ôl symud yn yr Ardal TB Isel gan y byddai dod o hyd i adweithyddion yn arwain at orfod cynnal profion ar fuchesi cyffiniol sy'n ddrud ac yn cymryd amser. Nid oes angen y profion hyn gan y bydd y buchesi hyn wedi cael profion cyn symud o leiaf 60 diwrnod ymlaen llaw.

- Cytundeb y dylid cynnal prawf ar ôl symud gan ei bod hi'n fwy tebygol y bydd yn gallu dod o hyd i'r haint.

- Cytundeb y dylid cynnal prawf ar ôl symud yn yr Ardal TB Isel ond y dylai gwartheg gael eu rhoi mewn cwarantin addas wrth aros am brawf a chanlyniadau.

- Gellid defnyddio'r prawf IFN-γ fel y prawf ar ôl symud.

- Dylai'r prawf cyn symud ar gyfer symudiadau i'r ardal leihau'r risg o drawsleoli'r clefyd i'r ardal. Byddai hefyd yn codi ymwybyddiaeth o brynu gwartheg o ardaloedd TB uwch.

- Gallai prawf ar ôl symud gael effaith andwyol ar fasnach o'r Ardaloedd TB Uchel. Efallai na fydd ffermwyr Ardal TB Isel am brynu o Ardaloedd TB uwch oherwydd y gofyniad i gael prawf ar ôl symud. Gellid cyflwyno eithriadau o brofion ar ôl symud os yw'r symudiadau'n dod o fuches risg isel mewn ardal TB uwch.

- Mynegodd rai bryderon am yr effaith bosibl ar besgwyr eidion yn yr Ardal TB Isel a fyddai'n gorfod wynebu costau uwch ac anawsterau ymarferol wrth brofi grwpiau o anifeiliaid yn fwy rheolaidd. Awgrymwyd y gellid profi'r buchesi hyn bob 6 mis yn lle hynny.

- Roedd llawer yn cytuno â gofyniad prawf cyn symud ar gyfer symudiadau i'r ardal o ardal uwch.

- Cytuno â phrawf ar ôl symud mewn Ardal TB Isel gan y byddai'n lleihau'r risg o gyflwyno TB.

- Mynegwyd pryderon cyffredinol am sut y byddai'r profion ychwanegol yn cael eu hariannu, sut y byddai profion ar ôl symud yn cael eu gorfodi a pha mor fuan ar ôl symud y byddai angen eu cynnal.

**<u>Ni fydd rhaid i'r holl wartheg sy'n symud o fewn ac o Ardal TB Isel gael prawf cyn symud bellach</u>**

Cafwyd llawer o sylwadau ar y cynnig hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno â dileu'r gofyniad prawf cyn symud ar gyfer symud gwartheg o fewn neu o'r Ardal TB Isel oherwydd bod buchesi'n cael eu heintio â TB o hyd yn yr ardal a'r teimlad ei bod hi'n rhy fuan i ddileu'r gofyniad.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Mae cyfiawnhad dros ddileu'r gofyniad prawf cyn symud mewn Ardal TB Isel ond mae'n cyfleu'r neges anghywir.

- Anghytuno â dileu'r prawf cyn symud gan na fyddai ffermwyr yn gallu gwerthu eu gwartheg ac mae'n annoeth o ystyried nifer y symudiadau yn yr ardal.

- Mae'n rhy gynnar i ddileu'r prawf cyn symud ar gyfer symudiadau o fewn Ardal TB Isel gan fod buchesi wedi'u heintio â TB yn yr ardal hon yn y 12 mis diwethaf. Yn enwedig gan fod mwyafrif yr achosion hyn yn deillio o symudiadau gwartheg. Annog Llywodraeth Cymru i beidio â dileu'r prawf cyn symud ar gyfer symudiadau o fewn Ardal TB Isel – dylai gael ei gynnal ledled Cymru am ychydig o flynyddoedd eto o leiaf gan obeithio y bydd achosion o TB yng Nghymru'n is erbyn hynny.

- Cefnogi dileu prawf cyn symud ond bydd y rhan fwyaf o geidwaid yn parhau fel nad ydynt o dan anfantais yn y farchnad.

- Dyma oedd sylwadau'r Grŵp Lles Anifeiliaid *'concerned that the Low TB Area cattle moved from or within the Low TB Area will no longer require a pre-movement test. We feel it is somewhat early to relax this requirement, as it provides an additional and*

*important safety net to ensure infected cattle not detected by the SICCT test are not moved on. We consider that the requirement for pre-movement testing should remain in place and data assessed in due course to establish the levels of disease that are detected at pre-movement testing before deciding to lift the requirement for pre-movement testing'*.

- Wrth symud gwartheg o'r Ardaloedd TB Uchel i'r Ardaloedd TB Isel, mae'r Grŵp Lles Anifeiliaid yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru *'ensure imported animals are kept under scrutiny and some sort of quarantine until it has been established they are truly disease free. Possibly IFN-γ could be used either at pre or post movement testing to overcome the SICCT limitations'*.

- Dywedodd nifer o filfeddygon fod y prawf cyn symud yn cyfrannu llawer at incwm milfeddygon bob blwyddyn. Byddai dileu'r gofyniad yn peryglu dyfodol milfeddygfeydd yn yr ardal hon. Byddai angen codi cyfradd tâl am ymweliadau Cymorth yn sylweddol i ddechrau gwneud iawn am y diffyg hwn.

**<u>Profion bob chwe mis i rai buchesi risg uchel (a nodwyd gan ffactorau risg)</u>**

Ychydig iawn o ymatebwyr a roddodd sylw penodol i'r cynnig hwn. O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd unigolion yn cytuno â phrofi buchesi risg uchel bob 6 mis. Gofynnwyd cwestiynau, fodd bynnag, am sut y byddai risg yn cael ei ddiffinio yn y buchesi hyn a beth fyddai buches risg uchel.

**<u>Cynnig ac annog un ymweliad Cymorth TB i bob ceidwad yn yr Ardal TB Isel. Bydd ymweliadau Cymorth TB yn cael eu cynnig i fuchesi wedi'u heintio â TB</u>**

O'r rhai a ymatebodd i'r pwynt penodol hwn roedd yna gefnogaeth gyffredinol i ymestyn ymweliadau Cymorth TB i'r holl ffermwyr yn yr Ardal TB Isel. Roedd rhai pobl yn credu nad oes digon o bwyslais ar fioddiogelwch yn yr Ardal TB Isel ac y byddai cynyddu ymweliadau Cymorth TB yn yr ardal hon yn atgyfnerthu'r angen am bioddiogelwch da.

**<u>Ymdrin ag Adweithyddion Amhendant</u>**

**<u>(i) Bydd Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol mewn buchesi sydd â statws heb TB Swyddogol wedi'i ddiddymu (OFTW) yn cael eu hailbrofi gan ddefnyddio'r prawf IFN-γ</u>**

Roedd y sylwadau a dderbyniwyd gan ymatebwyr i'r pwynt hwn ar y cyfan yn cefnogi cynnal prawf IFN-γ ar Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Dylid symud yr holl Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn yr Ardal TB Isel yn hytrach na'u cyfyngu i'w daliad tarddu am weddill eu hoes. Gan nad yw'r prawf yn rhoi canlyniad hollol gywir gallent fod yn ffynhonnell haint yn y dyfodol.

- Mae'n debygol y bydd yna lawer iawn o Adweithyddion Amhendant mewn buchesi OFTW a dylai defnyddio'r prawf g-IFN i brofi'r rhain leihau'r risg o haint heb ei ddatgelu yn y fuches o hyd.

- Mae Iechyd da (Gwledig) ac eraill yn credu y dylid trin pob Adweithydd Amhendant fel adweithydd yn yr ardal TB Isel.

**(ii) Bydd Adweithyddion Amhendant positif yn cael eu symud a bydd Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes**

Mae'r cynnig i osod cyfyngiad am oes ar Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn gyffredin i'r tri chategori o ardal TB. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau cyffredinol ar y cynnig hwn ac nid oeddynt yn ymwneud ag Ardal TB benodol. Ni chafwyd cytundeb barn ar y cynnig. Gellir gweld sylwadau ar y cysyniad o gyfyngu Adweithyddion Amhendant am oes yn adran 5.4.

**Adolygu'r defnydd o Unedau Pesgi Eithriedig gyda golwg ar eu gwahardd neu eu caniatáu o dan do yn unig**

O'r rhai a ymatebodd i'r cynnig hwn nid oedd consensws clir ar ganiatáu Unedau Pesgi Eithriedig yn yr Ardal TB Isel. Roedd rhai ymatebwyr yn credu eu bod yn achosi risg yn yr Ardal TB Isel, ac eraill yn datgan eu bod yn darparu man allweddol ar gyfer pesgi gwartheg yn yr ardal ac y dylid eu cadw.

Mae sylwadau cyffredinol ar Unedau Pesgi Eithriedig yn adran 6.6.

**Gwahardd Unedau Pesgi Cymeradwy yn yr Ardal TB Isel**

Ychydig iawn o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y pwynt hwn ac roedd y rhai a wnaeth yn cytuno y dylid gwahardd Unedau Pesgi Cymeradwy yn yr Ardal TB Isel.

**Monitro lefel yr haint mewn moch daear**

Cyfeiriodd sylwadau ar y cynnig hwn yn benodol at ganlyniadau'r Arolygon o Foch Daear Marw. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylid brechu moch daear yn yr Ardal TB Isel i ddiogelu'r moch daear sy'n byw yno.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Pryder y gallai peidio monitro mamaliaid gwyllt yn ddigonol arwain at wneud penderfyniadau ar sail data annigonol. Er enghraifft, gall cymryd samplau o foch daear marw orliwio'r achosion o TB buchol mewn moch daear gan fod moch daear sâl yn fwy tebygol o gael eu taro â cherbydau.

- Dywed RSPCA Cymru ei fod *'always supported the need for more information on the prevalence of TB in badger populations especially in areas where the disease is not considered endemic in the cattle population'.*

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod Arolwg o Foch Daear Marw yn ddechrau gan ei fod yn cadarnhau bod moch daear yn cario TB. Yn aml, roeddynt yn mynd ymlaen i ddweud bod angen difa wedyn i ategu hyn.

- Cafwyd awgrym y dylai goruchwyliaeth moch daear (yn cynnwys camerâu) fod ar gael i ffermwyr iddynt allu asesu gweithgarwch ar ffermydd sydd ag achosion o TB.

- Mae angen arolwg priodol o fywyd gwyllt, *'BFD is inaccurate and doesn't take into account live badgers'.*

- Dywed y Grŵp Lles Anifeiliaid *'although wildlife is implicated in the Intermediate Mid Area and both High Areas, apart from the dead badger survey, there is no empirical data provided to quantify the contribution to disease transmission from wildlife to cattle.*

*Furthermore the dead badger survey demonstrated the relatively low level of disease presence with only 43 badgers out of the 648 carcasses examined being infected (6.6.%). In addition it is not clear whether these infected badgers were also considered infectious, or not'.*

- Dylid cyflwyno canlyniadau'r arolwg moch daear marw yn yr un ffordd h.y. fel niferoedd yn hytrach na chyfran o'r boblogaeth moch daear leol. Dylai'r niferoedd bob amser fod yn gysylltiedig â'r boblogaeth debygol o foch daear os yn bosibl.

- Mae llawer, yn cynnwys CLA Cymru yn awgrymu y dylai'r arolwg barhau. Awgrymodd rhai y dylid ei gynnal mewn ardaloedd lle mae yna lawer o achosion o'r clefyd os na fyddai'n bosibl ei gynnal ledled Cymru.

- Mae RSPCA Cymru yn datgan ei bod hi'n bwysig deall data ar ba mor gyffredin yw TB yn y boblogaeth foch daear os oes yna ffynhonnell haint sylfaenol mewn bywyd gwyllt mewn ardaloedd lle nad yw'r clefyd yn bresennol mewn gwartheg ac i helpu i hysbysu'r rhai sy'n credu mai moch daear yw ffynhonnell y clefyd pan nad yw hyn yn wir o bosibl.

- Mae gwybodaeth yr Arolwg Moch Daear Marw yn gamarweiniol. Roedd y prosiect yn wael a chymerodd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ormod o amser i ymateb.

### 5.2 Ardaloedd TB Canolradd

**<u>Parhau i gynnal trefn brofi TB flynyddol a defnyddio'r prawf IFN-γ ym mwyafrif y buchesi wedi'u heintio â TB (prawf IFN-γ gorfodol ym mhob achos newydd o statws TB swyddogol wedi'i ddiddymu (OFTW).</u>**

O'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y pwynt penodol hwn roedd y rhan fwyaf yn cytuno y dylid defnyddio prawf IFN-γ mewn achosion newydd ac mewn achosion eraill o fuchesi wedi'u heintio â TB hefyd fel y bo'n briodol.

**<u>Bydd pob buwch sy'n symud o fewn, rhwng ac o'r Ardal TB Canolradd yn gorfod cael prawf cyn symud</u>**

Ychydig o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y pwynt penodol hwn. Roedd y rhai a ymatebodd yn cefnogi'r gofynion prawf cyn symud ar gyfer symudiadau o fewn a rhwng Ardaloedd TB Canolradd ac o ardal uwch. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â phrawf cyn symud ond heb roi unrhyw esboniad pellach.

**<u>Bydd rhaid i'r holl wartheg sy'n symud i Ardal TB Canolradd o Ardal TB Uchel neu Ardal TB Canolradd debyg ond daearyddol ar wahân gael prawf ôl symud</u>**

Roedd llawer o ymatebwyr yn anghytuno â'r gofyniad i gynnal prawf ar ôl symud yn yr Ardaloedd TB Canolradd. Roeddynt yn credu y bydd cyfran fawr o'r gwartheg wedi cael prawf ar ôl symud eisoes ac y byddai cynnal prawf yn ddiwerth, yn achosi straen ac yn gostus i'r diwydiant. Roedd rhai yn teimlo y byddai'r mathau hyn o fesurau rheoli yn anodd i'w monitro hefyd.

**<u>Profion bob chwe mis i rai buchesi risg uchel (a nodwyd gan ffactorau risg)</u>**

Roedd llawer iawn o ymatebwyr, ffermwyr yn bennaf, yn anghytuno ag unrhyw ystyriaeth i gynnal profion bob 6 mis mewn buchesi risg uchel yn yr Ardaloedd TB Canolradd. Roedd

rhai'n teimlo na fyddai modd ymdopi â mwy o brofion yn yr ardaloedd hyn a rhai'n cwestiynu budd y gofynion i brofi bob 6 mis ar gyfer buchesi risg uchel.

O'r ychydig a oedd o blaid profion bob 6 mis ar gyfer rhai buchesi risg uchel, awgrymodd nifer y dylid diffinio buches risg uchel fel un sydd wedi cael yr haint TB yn y 3 blynedd diwethaf.

**Bydd Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol mewn buchesi sydd â statws heb TB swyddogol wedi'i ddiddymu yn cael eu hailbrofi gan ddefnyddio'r prawf IFN-γ (bydd anifeiliaid positif yn cael eu symud a bydd Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes).**

Roedd llawer o ymatebwyr, yn cynnwys Iechyd Da (Gwledig), yn teimlo y dylid symud Adweithyddion Amhendant yn yr Ardaloedd TB Canolradd ar ôl y prawf cyntaf ac nid y prawf IFN-γ gan ei bod hi'n debygol bod yna lawer o'r anifeiliaid hyn mewn buchesi OFTW. Fodd bynnag, cydnabuwyd y dylai cynnal prawf IFN-γ ar Adweithyddion Amhendant leihau'r risg o haint heb ei ddatgelu yn dal i fod yn y fuches. Mae sylwadau ar gyflwyno cyfyngiad am oes ar Adweithyddion Amhendant sy'n profi'n glir yn adran 5.4.

**Caniatáu Unedau Pesgi Cymeradwy ac Unedau Pesgi Eithriedig Dan Do**

Ychydig o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y pwynt penodol hwn, ond roedd y rhai a wnaeth yn teimlo y dylai Unedau Pesgi Cymeradwy gael awdurdod i gymryd gwartheg o'r un Ardal TB â nhw yn unig.

**Cynnig ymweliadau Cymorth TB i fuchesi wedi'u heintio â TB**

Roedd y rhai a ymatebodd i'r pwynt hwn yn teimlo y dylid darparu ymweliadau Cymorth TB i bob buches yn yr Ardaloedd Canolradd, waeth a ydynt wedi cael achos o TB ai peidio.

**Annog brechu moch daear pan fydd y brechiad ar gael**

Roedd llawer o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i annog brechu moch daear yn yr Ardaloedd TB Canolradd. Roedd y rhai a ymatebodd yn cwestiynu budd brechu moch daear gan na fydd yn cael unrhyw effaith ar foch daear sydd wedi'u heintio a fydd yn cario a chadw'r haint yn y boblogaeth fywyd gwyllt. Roedd rhai'n teimlo na ddylid brechu moch daear gan nad oedd prawf ei fod yn llwyddo yn yr hirdymor. Dywedodd eraill fod brechu moch daear yn ddrud iawn, ei fod yn cymryd llawer o amser i gael unrhyw effaith (os o gwbl) ar TB mewn gwartheg ac na wyddir pryd neu a fydd y cyflenwad o'r brechlyn yn cael ei adfer. Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â brechu moch daear yn ffafrio polisi difa moch daear mewn buchesi wedi'u heintio â TB lle gwyddir mai moch daear yw tarddiad tebygol y clefyd.

Roedd rhai ymatebwyr oedd yn cytuno â'r cynnig i annog brechu moch daear yn teimlo y dylid ei ddefnyddio i ddiogelu moch daear a gwartheg yn yr Ardaloedd Canolradd. Roedd eraill yn teimlo y dylid ei gyflwyno ym mhob ardal.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Os a phan fydd cyflenwadau o'r brechlyn moch daear yn cael eu hadfer, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyflenwadau niferus ar gael er mwyn darparu cyflenwad di-dor petai un cwmni yn methu ateb y galw. Dyma farn The Born Free Foundation, yn sgil Arolwg Moch Daear Marw (yn arbennig mewn perthynas â'r Ardaloedd Triniaeth Ddwys): *"We would therefore strongly advocate that if any badger intervention is to be*

*considered with the aim of reducing bovine TB prevalence among badgers in areas of high bovine TB incidence/prevalence in cattle, vaccination should be the only option on the table".*

- Mae'r Marches Badger Group yn credu y dylid parhau i frechu yn yr Ardaloedd TB Canolradd er mwyn eu diogelu rhag TB gwartheg ac atal y clefyd rhag sefydlu yn y boblogaeth o foch daear.
- Dargyfeiriad yw'r angen i frechu moch daear a'r unig fudd i foch daear yw eu hatal rhag dal yr haint gan wartheg gan ei bod hi'n annhebygol y gall moch daear drosglwyddo'r clefyd i wartheg. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar leihau'r clefyd mewn gwartheg.
- Mae brechu bywyd gwyllt yn ateb llawer gwell na difa.
- Ni ddylid ystyried brechu ymhellach nes bod arbenigwyr milfeddygol wedi gwerthuso asesiad annibynnol llawn o'i lwyddiant yn yr Ardaloedd Triniaeth Ddwys. Dylid defnyddio'r adnoddau ariannol prin yn well (e.e. targedu rheolwyr da byw a monitro marchnadoedd da byw a thargedu'r rhai sy'n gweithredu fel masnachwyr gwartheg).
- Mae defnyddio brechlyn drud ar fochyn daear a allai fod wedi'i heintio yn wastraff arian.

### 5.3 Ardaloedd TB Uchel

**<u>Profi'r fuches gyfan bob chwe mis</u>**

Roedd llawer iawn o ymatebwyr yn anghytuno â phrofi'r fuches gyfan bob chwe mis yn yr Ardal TB Uchel, yn bennaf oherwydd pryderon ymarferol yn ogystal â risgiau iechyd a diogelwch i'r ffermwr a'r effaith ar les y gwartheg. Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon am y baich ychwanegol sylweddol y byddai profi bob 6 mis yn ei roi gan gwestiynu ei werth gan fod profion blynyddol wedi llwyddo i leihau nifer yr achosion o TB yng Nghymru, a bod llwyddiant profion bob 6 mis yn yr Ardaloedd Triniaeth Ddwys yn dal heb ei brofi.

Roedd llawer o ffermwyr yn gwrthwynebu profi bob 6 mis ar y sail y byddai ffermwyr y tu allan i Gymru yn gweld buchesi sy'n cael eu profi bob 6 mis yn fwy o risg ac y byddai'n gwneud iddynt ailystyried prynu o'r ardaloedd hynny. Roedd llawer o ymatebwyr hefyd yn pryderu am gost profion ychwanegol gyda llawer yn datgan na ddylid disgwyl i ffermwyr dalu costau profi.

Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai profi bob 6 mis yn andwyol iawn i fuchesi sugno eidion oherwydd ymarferoldeb trefnu'r profion yn ystod cyfnodau pan mae'r gwartheg allan yn pori. Byddai hefyd yn ymyrryd â sesiynau bridio a lloea lle mae unrhyw straen diangen yn gallu achosi colledion difrifol mewn beichiogrwydd.

Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai milfeddygon yn gallu ymdopi â chynnal profion bob 6 mis yn yr Ardal TB Uchel gan y byddai'n golygu cynnal llawer mwy o brofion ychwanegol.

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno y byddai profi bob 6 mis yn helpu i ganfod y clefyd yn gynt, ond yn cynnig y dylid ond gweithredu hyn mewn buchesi risg uchel yn hytrach na gweithredu dull cyffredinol mewn Ardaloedd TB Uchel.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Bydd profi bob 6 mis yn dinistrio'r diwydiant gwartheg yn y Canolbarth ac yn cael effaith sylweddol ar fuchesi sugno ac yn effeithio ar les anifeiliaid. Bydd yn gostus i ffermwyr. Os nad yw'n ddefnydd gorau o adnoddau ariannol neu filfeddygol.

- Dylid profi buchesi risg uchel bob chwe mis yn unig (yn seiliedig ar eu hanes o TB) yn hytrach nag mewn ardaloedd eraill.

- Dylid treialu profion bob 6 mis mewn buchesi godro i ddechrau gan fod y gwartheg yn haws i'w casglu.

- Bydd profi bob 6 mis yn effeithio ar les anifeiliaid o dan gyfyngiad ac mae'n annheg disgwyl i ffermwyr gymryd amser o'u hamserlen waith yr haf i gwblhau profion pellach.

- Nid yw RWAS yn cytuno â'r bwriad i brofi gwartheg bob 6 mis, a allai achosi llawer o anawsterau ymarferol a lles.

- Anghytuno â phrofi bob 6 mis – profi buchesi cyffiniol eisoes yn digwydd.

- Bydd profi'n amlach yn fodd o ganfod y clefyd yn gynt yn y broses.

- Pe gellid cynnal y  profion 6 mis pan mae gwartheg dan do (e.e. canol/diwedd Tachwedd ac Ebrill/dechrau Mai) byddai'n lleihau  trafod a symudiadau a straen a llwyth gwaith.

- Nid oes tystiolaeth o'r Ardaloedd Triniaeth Ddwys fod profion bob 6 mis yn llwyddiannus. Gan nad yw llwyddiant profion bob 6 mis wedi'i brofi, nid yw'n briodol cyflwyno trefn o'r fath o ystyried yr holl anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig â phrofion ychwanegol, staff, risgiau iechyd a diogelwch, i gyd yn cael effaith fawr ar fusnesau a theuluoedd ffermio.

- Anghytuno â phrofi bob 6 mis – bydd yn canfod buchesi wedi'u heintio â TB yn gynt efallai ond teimlir bod hyn eisoes yn cael ei gyflawni i raddau trwy brofi buchesi ffiniol – sydd wedi'i dargedu'n fwy – yn enwedig os mai lledaeniad lleol yw'r pryder. Bydd ffermydd eidion bach nad ydynt wedi cael achos o TB erioed ac nad ydynt yn ffinio â fferm sydd wedi cael achos yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn ac nid oes ganddynt risg uchel.

- Mae Cymdeithas Ffermwyr Tenant Cymru'n mynegi pryder am oblygiadau ymarferol symud i brofi bob 6 mis. Mae profion blynyddol yn faich sylweddol ar y diwydiant ffermio a'r proffesiwn milfeddygol a cheir amheuaeth am i ba raddau y gellir rheoli'r clefyd yn well drwy gynyddu profion i ddwywaith y flwyddyn.

- Byddai profion ychwanegol yn dreth ormodol o lawer ar adnoddau milfeddygol. Ni fydd y milfeddygfeydd yn gallu ateb y galw gyda'r staff sydd ganddynt ac ni fyddai'n hyfyw yn ariannol i gyflogi mwy o staff. Gallai hyn fod yn berthnasol iawn ar ôl i'r DU adael yr UE, yn dibynnu ar statws milfeddygon cymwysedig nad ydynt yn dod o'r DU.

- Anghytuno â phrofi bob 6 mis ar sail costau, ond gallai annog ffermwyr i ddileu TB cyn gynted â phosibl o'u daliad.

- Bydd profi buchesi bob 6 mis yn faich ychwanegol sylweddol ar ffermwyr, yn enwedig gan na fydd y rhan fwyaf ohonynt erioed wedi bod yn agos at gael eu heintio â TB. Bydd yn cynyddu costau profi'n sylweddol. Mae'r system gyfredol wedi arwain at leihau achosion o TB felly mae'n anodd gweld sut y byddai profi bob 6 mis yn helpu.

- Bydd profi bob 6 mis yn effeithio ar brofion paratwbercwlosis eraill. Mae'r potensial am ganlyniadau positif ffug yn sgil Clefyd Johne yn sylweddol.

- O gyflwyno profion bob 6 mis, dylid caniatáu i fuchesi sy'n profi'n glir am 3 blynedd yn olynol i symud i brofion blynyddol.

**Bydd pob buwch sy'n symud o fewn, rhwng ac o'r Ardal TB Uchel yn gorfod cael prawf cyn symud (dim prawf ar ôl symud)**

Roedd yr ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y pwynt penodol hwn yn cytuno bod prawf cyn symud yn briodol ar gyfer symudiadau o fewn yr Ardaloedd TB Uchel ac o'r Ardaloedd Uchel i'r Ardaloedd Canolradd ac Isel. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo y dylai prawf cyn symud fod yn orfodol yn yr Ardal TB Uchel er mwyn dod o hyd i haint heb ei ganfod, yn enwedig os yw'r gwartheg a symudwyd yn dod o'r Ardal TB Isel lle nad oedd angen cynnal prawf cyn symud.

**Defnyddir mesurau rheoli symud buches mwy cyfyngedig**

Ychydig o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cynnig hwn ond roedd y rhai a wnaeth yn cytuno ar y cyfan y dylid gosod cyfyngiadau ar symud buchesi yn yr Ardaloedd TB Uchel. Fodd bynnag, os byddai hyn yn golygu nad oeddynt yn gallu gwerthu i Ardaloedd TB Canolradd ac Isel pan fyddai'r cyfyngiadau'n cael eu codi byddai hyn yn achosi effaith annheg ar fasnach i'r buchesi hyn.

Dywedodd ymatebydd arall y byddai cyflwyno mesurau rheoli symud mewnol ac allanol mwy cyfyngedig yn effeithio ar drefniadau rheoli tir comin traddodiadol, gan gyfyngu o bosibl ar symud stoc rhwng y prif daliad a'r tir comin ac arwain at broblemau lles anifeiliaid. Byddai hefyd yn effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd a rheoli bywyd gwyllt.

**Parhau i ddefnyddio'r prawf IFN-γ yn ad hoc ym mhob achos newydd a cronig o fuches wedi'i heintio â TB**

Ychydig iawn o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cynnig hwn. Roedd gan y rhai a wnaeth farn gymysg gan ddatgan y dylai'r prawf IFN-γ helpu i ddod o hyd i'r clefyd mewn achosion pan nad yw prawf croen yn ei ganfod, felly dylid ei ddefnyddio fel mater o drefn yn yr Ardaloedd TB Uchel. Roedd eraill yn anghytuno â defnyddio'r prawf IFN-γ ar y fuches gyfan gan nad yw'n ffordd bendant o gael ffermydd yn rhydd o gyfyngiadau.

**Mae prawf IFN-γ yn orfodol i fuches OFTW sydd wedi'i heintio â TB yn y 18 mis blaenorol a defnyddir ail brawf IFN-γ pan ganfyddir lefel uchel o'r clefyd mewn grwpiau rheoli.**

Unwaith eto, ychydig iawn o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y pwynt penodol hwn o'r ymgynghoriad. Roedd y farn yn gymysg ond mynegwyd pryder am gost cynnal prawf IFN-γ ychwanegol ar anifeiliaid risg uchel/grwpiau rheoli lle byddai lladd y rhai fel adweithyddion yn well ac yn gwneud mwy o synnwyr yn ariannol yn yr hirdymor.

**Cael gwared ar Adweithyddion Amhendant safonol fel adweithyddion ym mhob achos OFTW (bydd Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu profi'n glir yn cael eu cyfyngu i'w buches am weddill eu hoes).**

Cafwyd sylwadau cymysg ar y cynnig hwn heb gonsensws barn cyffredinol. Roedd rhai'n teimlo y byddai lladd Adweithyddion Amhendant safonol yn lleihau natur benodol y prawf croen. Dywedodd nifer o ymatebwyr y dylai ffermwyr allu ailbrofi Adweithyddion Amhendant safonol gan ddefnyddio'r prawf croen a/neu'r prawf IFN-γ, yn enwedig os ydynt wedi bod yn ddi-glefyd am nifer o flynyddoedd.

Gan fod 50% o Adweithyddion Amhendant yn profi'n glir dywedodd rhai y byddai'r cynnig yn golygu bod mwy o fuchesi'n cael eu cyfyngu ac yn gorfod cael Profion Cyfnod Byr yn ddiangen. Nid yw'r anifeiliaid hyn yn risg i weddill y fuches cyn belled eu bod yn cael eu hynysu'n briodol wrth aros am brofion pellach.

Roedd rhai'n teimlo y dylid lladd Adweithyddion Amhendant safonol mewn achosion cronig yn unig, yn hytrach nag fel dull cyffredinol ym mhob achos OFTW.

Roedd eraill yn teimlo y byddai cael gwared ar Adweithyddion Amhendant sy'n cael eu dehongli'n safonol o fudd er mwyn cael y blaen ar yr haint mewn cyfnod cynnar.

Mae sylwadau ar gyflwyno cyfyngiad am oes ar Adweithyddion Amhendant difrifol sy'n profi'n glir yn adran 5.4.

**Ni fydd modd defnyddio'r prawf clir sy'n codi cyfyngiadau symud TB o fuches fel prawf cyn symud**

Roedd llawer iawn o ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig hwn am nifer o resymau. Roedd rhai'n teimlo bod y mesur yn ormod i ffermydd oedd â fawr o hanes o TB ac y byddai'n well ei ddefnyddio fel dull targedu. Thema gyffredinol yn y sylwadau oedd y caledi ychwanegol a fyddai hyn yn ei achosi i ffermwyr a'r amser ychwanegol y byddai'n iddynt ei aros i werthu stoc ar ôl codi cyfyngiadau. Byddai hyn yn achos caled arbennig i fuchesi sugno sy'n gwerthu gwartheg stôr yn sgil natur eu busnesau a'u hangen i werthu gwartheg stôr yn yr hydref.

Roedd llawer yn teimlo bod y mesur hwn yn gwneud busnesau'n ymarferol gan y gallai gynyddu'r amser cyn gwerthu anifeiliaid 50% a fyddai'n effeithio'n ddifrifol ar lif arian, costau cynhyrchu, cynnal lefelau stoc cynaliadwy a safonau lles anifeiliaid. Yr unig ffordd y gallai cynhyrchwyr sicrhau safonau lles digonol fyddai cadw 2/3 o'r cyfanswm stoc ar eu ffermydd a fyddai'n golygu bod mwyafrif o fusnesau'n anhyfyw.

Roedd rhai'n teimlo ei fod yn tanseilio ffydd y Llywodraeth yn y prawf croen cyfredol ar gyfer TB. Byddai buchesi wedi'u heintio â TB eisoes wedi cael 2 brawf clir a dylai hyn fod yn ddigon i warantu codi cyfyngiadau symud a'u galluogi i fasnachu fel y dymunant. Mae yna deimlad mai ychydig o fudd fyddai hyn ond byddai'n cael effaith sylweddol ar fusnesau.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Mae rhai'n anghytuno na ddylid defnyddio'r prawf clirio fel prawf cyn symud mewn Ardaloedd TB Uchel. Nid oes tystiolaeth i awgrymu y byddai hyn o fudd. Bydd y trefniant hwn yn ei gwneud hi'n amhosibl i lawer o fusnesau sugno fasnachu gan eu bod yn dibynnu ar werthu gwartheg stôr yn yr hydref.

- Drwy ymestyn yr amser mae'n rhaid i wartheg aros ar fferm 60 diwrnod ar ôl codi'r cyfyngiadau byddai'n golygu y byddai'r tymhorau ar gyfer gwerthu gwartheg stôr wedi pasio i ffermwyr eidion ac na fyddai'r galw yno pan fyddai'r ffermwr yn cael gwerthu.

Bydd hyn yn cael effaith niweidiol nid yn unig ar fusnesau ffermio, ond hefyd yn difetha marchnadoedd gwartheg a lladd-dai na all weithredu heb gyflenwad cyson o wartheg.

- Bydd peidio â chael defnyddio’r prawf clirio fel prawf cyn symud yn achosi problemau pan fo tenantiaeth yn dod i ben, pan fydd yna brofedigaeth yn y teulu a bod angen cymryd camau ar ddyddiad cynharach a phan fo’r busnes ffermio wedi’i gyfyngu am gyfnod hir, wedi cael prawf buches clir yna’n dymuno gwerthu gwartheg yn gynnar oherwydd problemau llif arian. Mae’r prawf ychwanegol hwn yn ddiangen.

- Mae peidio â chael defnyddio’r prawf clirio fel prawf cyn symud yn rhoi mwy o amser i wartheg gael eu hystyried yn rhai heb TB gan leihau’r tebygolrwydd o drosglwyddo’r clefyd ymlaen; fodd bynnag, mae’n tanseilio dilysrwydd y prawf croen.

- Anghytuno â’r cynnig hwn gan nad yw’n ffafriol i les anifeiliaid a chynaliadwyedd ariannol daliad. Os oes 2 brawf clir wedi bod, dylid ystyried yr ail brawf fel prawf cyn symud. Nid yw gwneud unrhyw beth arall yn cyflwyno’r neges briodol am hyder yn y drefn 2 brawf clir.

- Os yw prawf clirio’n cael ei gwblhau’n llwyddiannus ar ôl dychwelyd y datganiad glanhau a diheintio bydd y cyfyngiadau’n cael eu codi. Beth ellir ei wneud i atal gwerthu gwartheg sydd wedi’u profi’n glir yn anghyfreithlon? Os yw’r cynnig yn datgan na ddylid codi cyfyngiadau TB2 nes 60 diwrnod ar ôl y prawf clirio yna dylid datgan hyn yr ymgynghoriad.

- Gall peidio â chael defnyddio’r prawf clirio fel prawf cyn symud leihau’r risg sy’n gysylltiedig ag arwerthiant gwasgaru buches, amheus a fyddai’n debygol o leihau’r risg sy’n gysylltiedig â gwerthu grwpiau bach o wartheg yn sgil y problemau cysylltiedig hysbys bod y prawf croen yn llai sensitif pan nad yw’n cael ei ddefnyddio fel prawf sgrinio buches.

**<u>Bydd Hysbysiadau Gwella Bioddiogelwch yn cael eu rhoi ar gyfer pob achos o OFTW yn yr ardaloedd, yn gofyn i geidwaid wella eu bioddiogelwch yn unol â’r gofynion</u>**

Roedd yr ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cynnig hwn yn gefnogol ar y cyfan i ddefnyddio Hysbysiadau Gwella Bioddiogelwch ar gyfer pob achos o OFTW yn yr Ardaloedd TB Uchel. Dywedodd llawer na ddylent fod yn rhy fiwrocrataidd ac y dylid eu hategu gan ddealltwriaeth wirioneddol a bod y ffermwr yn deall beth yw ei rôl. Awgrymodd eraill y gellid eu cyfuno’n raddol â Cymorth TB. Awgrymwyd hefyd y dylai’r Hysbysiadau Gwella Bioddiogelwch fod yn berthnasol i holl ffermydd Cymru, ond roedd eraill yn credu y dylid cyfyngu ar eu defnydd i’r Ardaloedd TB Uchel.

Roedd eraill yn teimlo er bod Hysbysiadau Gwella Bioddiogelwch yn gallu bod yn berthnasol mewn rhai achosion, roedd buchesi’n cael eu heintio â TB er eu bod wedi cymryd yr holl ragofalon i gyd. Gallai rhoi hysbysiadau i bob achos o OFTW roi gofynion afresymol ar ffermwyr o’r fath.

Awgrymwyd y gellid darparu grantiau i helpu i ariannu gwelliannau ac y dylid monitro diffyg cydymffurfiaeth gyda chanlyniadau ariannol priodol.

**<u>Caniatáu Unedau Pesgi Cymeradwy ac Unedau Pesgi Eithriedig Dan Do yn yr Ardal TB Uchel</u>**

Ni dderbyniwyd sylwadau penodol ar Unedau Pesgi Cymeradwy ac Unedau Pesgi Eithriedig yn yr Ardal TB Uchel, ond roedd rhai wedi gwneud sylwadau mwy cyffredinol ar Unedau Pesgi. Mae'r rhain i'w gweld yn adran 6.6.

**Gweithio tuag at ehangu Cymorth TB i gynnig cyngor milfeddygol pwrpasol am ddim i bob buches yn yr ardal**

Ychydig o ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cynnig penodol hwn. Fodd bynnag, roedd y rhai a wnaeth yn cefnogi'r bwriad i gyflwyno Cymorth TB yn yr Ardal TB Uwch. Roedd teimlad y byddai hyn yn ddisgwyliedig beth bynnag fel rhan o'r Cynlluniau Iechyd Buchesi rhwng ffermwyr a'u milfeddygon.

**Ystyried a datblygu ffyrdd o dorri'r cylch trosglwyddo rhwng gwartheg a moch daear lle gellir dangos bod moch daear yn cyfrannu at y broblem mewn achosion buchesi sydd â TB cronig.**

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn croesawu'r cynnig hwn, ond roedd rhai'n teimlo nad oeddent wedi cael digon o fanylion er mwyn ffurfio barn, a gofynnwyd am fwy o wybodaeth yn dilyn datganiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 18 Hydref 2016. Roedd llawer o'r ffermwyr a ymatebodd o'r farn mai'r ateb syml yw difa moch daear, ac roedd llawer o filfeddygon yn cytuno â hyn. Mae llawer o'r farn na all Cymru gael rhaglen dileu TB oni bai bod pob un o ffynonellau'r clefyd yn cael eu trafod.

Roedd nifer fawr o'r ymatebwyr o'r farn bod angen trefniant quid pro quo ar gyfer ffermwyr a fydd yn ddarostyngedig i ofynion eang er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ffermwyr. Mae'r trefniant quid pro quo hwnnw yn caniatáu difa'r bywyd gwyllt sy'n achosi'r haint.

Cyflwynodd llawer o'r rhai a oedd yn cefnogi difa moch daear awgrymiadau ar sut y gellid gwneud hynny. Er enghraifft, awgrymwyd y dylid difa moch daear a cheirw o fewn radiws o 3-5 cilometr o achos o TB. Nododd nifer fawr mai'r fyddin ddylai fynd ati i ddifa moch daear.

Roedd rhai yn cytuno y dylid defnyddio dull dal, profi a brechu neu waredu (TVR) gan y byddai hynny'n fwy derbyniol na difa moch daear, ond roedd llawer yn poeni am ddiffyg cywirdeb y prawf, ymarferoldeb y ddarpariaeth ac ystyriaethau lles y moch daear.

Ar y cyfan, roedd ymatebwyr o'r tu allan i'r diwydiant ffermio/y proffesiwn milfeddygol yn teimlo na ddylid difa moch daear o gwbl o dan unrhyw amgylchiadau. Nododd y rhai a oedd yn gwrthwynebu difa moch daear fod nifer yr achosion o TB mewn gwartheg yn lleihau yng Nghymru, er nad oedd unrhyw foch daear wedi'u difa.

Darparodd llawer o'r ymatebwyr sylwadau cyffredinol ar ymdrin â'r haint TB mewn bywyd gwyllt ledled Cymru.

Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol:

- Mae llawer yn cefnogi pob un o'r mesurau arfaethedig. Fodd bynnag, o ystyried i ba raddau mae mesurau cadw golwg, mesurau rheoli gwartheg a bioddiogelwch yn methu â chadw'r clefyd dan reolaeth, maent yn credu bod rhaid difa moch daear mewn Ardaloedd TB Uchel.

- Mae RSPCA Cymru o'r farn nad yw'r datganiadau ynghylch rôl bywyd gwyllt yn lledaeniad y clefyd yn ddigon penodol. Mae tystiolaeth o'r clefyd wedi'i nodi mewn cyfran o foch daear yn yr Ardaloedd TB Uchel, ond nid yw'r gyfran hon wedi'i nodi. Mae'n bwysig peidio â rhoi'r argraff bod gan foch daear a bywyd gwyllt arall gyfraniad

sylweddol i'w wneud at statws presennol y clefyd, gan fod y dystiolaeth o hyn yn wael. Mae Cymru wedi gwneud cynnydd da o ran lleihau nifer yr achosion o TB trwy weithredu mesurau rheoli gwartheg yn unig.

- Dylid difa moch daear lle gellir profi bod haint TB mewn set moch daear mewn Ardaloedd TB Uchel.

- Dyfynnodd llawer a oedd yn cefnogi difa moch daear ffigurau o'r Arolwg o Foch Daear Marw; nododd un ymatebydd: '*6.85% of the badgers were positive for M. bovis. This is probably 1,000 times the individual animal prevalence rate in cattle. This has major implications on the epidemiology of the disease'*.

- Gan nad oes unrhyw brawf bod brechu moch daear yn gweithio o ran ei fanteision tymor hir a gan nad yw'r brechlyn ar gael ar hyn o bryd, mae'n rhaid difa moch daear mewn ardaloedd lle maent yn un o brif sbardunau'r clefyd.

- Mae Dyfi Badger Group yn gwrthwynebu difa moch daear (TVR, adweithiol neu leol). Mae Dyfi Badger Group yn anfodlon hefyd gyda'r term 'ymyriadau amhriodol' a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad gan nad yw'n benodol. Maent yn ofni ei fod yn gysylltiedig â difa moch daear fel opsiwn posibl. Os felly, maent yn teimlo y dylai'r ymgynghoriad wedi mynd i'r afael â hyn mewn ffordd fwy agored.

- Gallai caniatáu difa ar raddfa fach ddylanwadu ar ffermwyr i gymryd y gyfraith i'w dwylo eu hunain a mynd ati i ladd moch daear yn anghyfreithlon.

- Roedd Iechyd da (Gwledig) yn croesawu'r cynnig i gymryd camau priodol i dorri llwybrau trosglwyddo rhwng gwartheg a bywyd gwyllt, ac yn awyddus i'r camau hyn gael eu cymryd yn gyflym i helpu i annog ffermwyr i gydymffurfio.

- Mae NFU Cymru yn croesawu'r datganiad sy'n nodi y dylem ddefnyddio ymyriadau priodol i dorri'r llwybrau trosglwyddo rhwng gwartheg a bywyd gwyllt; maent yn credu hefyd fod y dystiolaeth sy'n cysylltu moch daear â lledaeniad y clefyd yn glir.

- Mae llawer o'r ymatebwyr o'r farn mai moch daear yw prif ffynhonnell yr haint mewn gwartheg a bod angen rhyw fath o ddifa o'r herwydd. Roedd difa adweithiol mewn ardaloedd lle cafwyd achosion o TB a lle'r oedd moch daear heintiedig wedi'u nodi, ynghyd â brechu hefyd o bosibl, yn ddull a oedd yn cael ei ffafrio gan lawer. Roedd hyn yn cynnwys mwy o brofion, gan gynnwys defnyddio prawf PCR, mewn ardaloedd lle'r oedd achosion o TB i nodi setiau heintiedig.

- Roedd rhai o'r ymatebwyr eraill yn teimlo y byddai mynd ati'n rhagweithiol i ddifa moch daear yn yr ardal TB uchel yn fwy priodol, ac roedd y ddau awgrym yn cynnwys trwyddedu ffermwyr i wneud y difa.

- Roedd llawer o'r rhai a oedd yn anghytuno â difa moch daear yn teimlo nad oes llawer o dystiolaeth y byddai difa moch daear ar unrhyw ffurf yn lleihau TB mewn gwartheg, a bod tystiolaeth y byddai difa adweithiol yn gwneud y sefyllfa'n waeth, ac mae yna anawsterau a chyfyngiadau ymarferol i ddal a phrofi moch daear. Yn hytrach, dylai adnoddau ganolbwyntio ar brif ffynhonnell yr haint h.y. gwartheg.

- Mewn rhai achosion, mae modd difa moch daear heb ddeddfwriaeth ychwanegol ac mae'n gallu bod yn hynod effeithiol.

- Rwy’n cefnogi’r ffaith bod difa moch daear yn cael ei ystyried. Credaf fod gweithrediadau difa doeth yn hollbwysig er mwyn cyflawni’r nod o ddileu TB yn absenoldeb manteision tymor hir sicr brechu a gan nad oes brechlyn ar gael ar hyn o bryd. Os bydd asesiadau epidemiolegol milfeddygol o achosion o TB yn nodi moch daear fel ffynhonnell debygol o’r clefyd, dylid archwilio opsiynau difa.

- Mae angen mynd ati’n syth i ddifa moch daear yng Nghymru. Mae hi’n amhosibl bron i amddiffyn gwartheg rhag bywyd gwyllt heintiedig pan fyddant yn mynd allan i bori.

- Dylai ffermydd mewn ardaloedd lle ceir llawer o achosion o TB gael eu gosod yn yr ardal derfyn a dylai bywyd gwyllt gael ei brofi a’r rhai sy’n heintiedig gael eu difa.

- Mae difa yn fwy rhesymegol a thrugarog na brechu.

- Awgrymodd amryw o’r ymatebwyr y dylid copïo model Seland Newydd ar gyfer ymdrin â phosymiaid wrth ymdrin â moch daear.

- Dylid difa moch daear mewn 10 ardal, fel sy’n digwydd yn Lloegr.

- Rhaid rhoi’r gorau i amddiffyn moch daear a chaniatáu i geidwaid cefn gwlad reoli cefn gwlad.

- Mae un ymatebydd yn nodi: *‘The trap, test and cull or release strategies have already been considered in Wales. The 2009 report [Badger Control Model for Wales - Trap-Test-Cull-Vaccinate, Supplemental Report 4th March 2009; D.Wilkinson & G.C.Smith] into the possible strategy concluded that it would probably exacerbate the disease, and I see no reason why the assessment would be any different now’.*

- Mae’r ymatebydd yn mynd ymlaen i ddweud: *‘A test on an individual badger, or a sett (should suitable tests on faeces etc. become more reliable than currently achievable), gives a positive result, then the whole social group should be culled. The significance of a single infectious animal in a sett must not be overlooked; that animal may have shed M. bovis into the humid dark environment of the sett and the rest of the badgers in that sett will be at risk. Even if the individual animal is located and removed, then infection spreading within the same social group is highly likely. Therefore, I believe that the sett should be targeted, preferably using the application of modern humane methods of culling, such as the use of inert gasses, such as Nitrogen, probably best delivered as foams. To reduce perturbation effects, following this, the vacant sett should be physically destroyed in order to prevent its recolonisation by other (possibly uninfected) badgers; as M. bovis would persist for many months in the environment deep in a sett and present a threat for any recolonising animals’*.

- Mae ymatebydd arall yn nodi: *‘Badger cull issue does not go far enough and you are not addressing other issues like infection in local badger populations. Finding one infected badger and then taking a few in one sett does not help control TB on a bigger scale’*.

- Dylai statws gwarchodedig y mochyn daear gael ei ddileu i alluogi difa naturiol mewn ardaloedd sy’n wynebu problemau – gan leihau costau difa.

- Croesewir ymchwil a fydd yn profi a yw moch daear yn gyfrifol am drosglwyddo’r clefyd yn ôl i wartheg, a sut maent yn gwneud hynny.

- Gall annog codi ffensys ceirw o gwmpas coetir lle mae moch daear helpu i leihau croesheintio, a gall fod o fudd i iechyd y coetir.

- Byddai ffermwyr yn fwy parod i dderbyn y newidiadau pe bai camau'n cael eu cymryd o ddifrif i reoli TB mewn bywyd gwyllt – e.e. profion PCR o garthfeydd, gan ddifa a/neu ddileu statws gwarchodedig moch daear.

- Os na fydd yn cael ei chadw dan reolaeth, bydd y boblogaeth moch daear yn ffrwydro, gan achosi problemau difrifol i'r rhai sy'n byw yng nghefn gwlad a risgiau i'r pridd tyfu bwyd a'r gwaith o reoli ffermydd. Ar wahân i foch daear yn palu'r ddaear a'r gwrychoedd a gwneud llanastr, maent hefyd yn creu amgylchedd peryglus i fywyd gwyllt arall, er enghraifft, y draenog.

- Mae'r RSPCA yn poeni am dderbyn cynigion megis y dull TVR. Byddent yn awyddus i weld sut mae'r polisi hwn wedi gweithio yng Ngogledd Iwerddon cyn cefnogi datblygu'r polisi hwn mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r RSPCA yn amheus o unrhyw brawf a ddefnyddir yn y maes i bennu statws clefyd y mochyn daear yn gywir.

- Mae'r RSPCA yn cefnogi'r egwyddor y dylid mynd ati'n wyddonol i ddangos bod moch daear yn cyfrannu at y broblem cyn cynnig unrhyw fesurau angheuol. Ni fyddai RSPCA Cymru am weld penderfyniadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar y rhagdybiaeth gan nad oes yna dystiolaeth bod y clefyd yn bresennol mewn buches, bod rhaid mai'r mochyn daear sy'n gyfrifol. Mae angen cynnal astudiaeth ar arferion hwsmonaeth ar ffermydd sy'n dioddef achosion.

- Y nod yw sicrhau poblogaeth bywyd gwyllt iach ochr yn ochr â phoblogaeth gwartheg iach. Dylid defnyddio'r term rheoli bywyd gwyllt yn hytrach na difa.

- Mae Marches Badger Group yn credu bod moch daear yn cael eu defnyddio fel bychod dihangol oherwydd y camsyniad nad oedd adweithyddion heb friwiau amlwg wedi'u heintio. Mae'n bosibl y byddant wedi ail-heintio'r fuches ac mae'n bosibl, mewn achosion o TB cronig, bod y ffermydd hyn yn gronfeydd TB eu hunain, a bod moch daear yn gysylltiedig â hyn. Yn yr achosion hyn, dylid ystyried difa'r fuches gyfan.

- Mae Marches Badger Group o'r farn nad yw moch daear yn heintio gwartheg sy'n dioddef o glefyd anadlol. Credant y dylai unrhyw anifail sy'n dioddef o TB buchol gael ei ddifa. Fodd bynnag, gan fod sensitifrwydd y prawf yn gymharol isel, mae Marches Badger Group yn credu os mabwysiadir TVR y dylid cynnal post-mortem ar foch daear i ddilysu'r diagnosis. Mae'n debyg bod moch daear yn cael eu heintio o wartheg, ac ni fyddai Marches Badger Group yn cefnogi unrhyw beth a fydd yn arwain at ddifa moch daear ar raddfa fawr.

- Mae gan y prawf TB ar gyfer moch daear, sef y prawf 'Chembio Dual Path Platform VetB' (DPP), benodoldeb a sensitifrwydd isel ac, ar hyn o bryd, nid oes modd ailadrodd perfformiad y prawf yn y labordy yn y maes. Pan fydd prawf cyflym a dibynadwy ar gyfer moch daear ar gael i'w ddefnyddio yn y maes, efallai y bydd modd mabwysiadu protocol profi a rhyddhau neu waredu trwy ladd heb boen.

- Bydd gwaredu'r boblogaeth moch daear yn rhannol yn cael dylanwad ar ledaeniad TB mewn moch daear a gwartheg, gyda'r potensial o waethygu'r broblem. Yr unig ffordd y gellid defnyddio strategaeth o'r fath mewn rhaglen reoli yw ar ôl treial addas. Byddai'n well defnyddio'r adnoddau prin mewn perthynas â mesurau rheoli gwartheg sydd ond yn gallu cael effaith fuddiol.

- Bydd lladd moch daear yn anghyfreithlon yn gwaethygu'r broblem, ac mae angen mynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon a dylai ffermwyr gael eu haddysgu bod y camau hyn yn tanseilio mesurau TB.

- Bydd angen ystyried materion amgylcheddol gydag asesiad priodol os bydd yn cael ei gynnal mewn ardal cadwraeth arbennig yr UE.

**5.4 Cysyniad cyffredinol o gyfyngiad gydol oes mewn perthynas ag IRs sydd wedi cael canlyniadau prawf clir (dehongliad safonol mewn Ardaloedd Isel a Chanolradd a dehongliad difrifol yn yr Ardaloedd TB Uchel).**

Cafwyd llawer o safbwyntiau cyffredinol a chymysg ar y cysyniad o gyfyngiad gydol oes mewn perthynas ag IRs, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynigion. Roedd llawer o'r farn bod y cynnig yn tanseilio'r hyder yn y prawf croen, oherwydd os bydd prawf anifail yn glir, er gwaethaf y ffaith ei fod wedi'i nodi fel anifail IR yn flaenorol, dylid ystyried ei fod yn rhydd o'r clefyd, felly gall gael ei werthu os bydd y ffermwr yn dymuno gwneud hynny.

Nid oedd llawer o'r ymatebwyr yn deall pa fudd fyddai cyfyngu IRs i'r fuches, oherwydd os oeddent yn risg i'r gwartheg eraill, dylent gael eu lladd, yn hytrach na chael eu gadael ar ddaliad lle gallent heintio'r fuches a gwartheg eraill a brynir.

Roedd eraill yn teimlo y byddai cyfyngu ar symudiadau'r IR yn cyfyngu ar y potensial y gallai'r clefyd barhau i ledaenu, ac y byddai'n mynd i'r afael â chyfyngiadau'r prawf croen. Awgrymodd rhai mai dim ond pe bai'r ffermwr dan sylw yn cytuno y dylid gosod y cyfyngiad gydol oes; pe na bai'n cytuno, dylai'r anifail gael ei ladd.

Roedd eraill yn anghytuno â'r gallu i ddynodi bod canlyniad prawf anifail yn amhendant. Dylai gael ei ddynodi fel adweithydd a'i ladd neu dylid dynodi ei fod yn rhydd o'r clefyd.

- Os yw'r IRs yn anifeiliaid iau ar unedau sugno eidion, gallai gyfyngu ar broffidioldeb y buchesi hyn.

- Mae Cangen Gwent yr FUW yn anghytuno â chyfyngu IRs i'w buches am oes gan ei fod yn '*unfair as suckler cows often stay in the same herd for life and many animals have tested IR once early in their lives and have tested clear every year since, indicating those cattle are free of disease*'.

- Mae angen canolbwyntio ar gyfathrebu a chanllawiau clir ar sut y dylai IRs gael eu trin ym mhob ardal. Ar hyn o bryd, mae'n amrywio o un fferm i'r llall yn seiliedig ar risg hanesyddol. Angen cyfathrebu clir a dull a phrotocol cyson ar gyfer canlyniadau cael IRs yn ystod prawf cadw golwg.

- Gallai'r camau ar gyfer ymdrin ag IRs a'u risgiau yn y dyfodol gael eu datblygu ymhellach.

- Dylai IRs allu cael eu gwerthu i AFUs.

- Anghytuno â chyfyngu IRs sydd wedi derbyn canlyniadau prawf clir i'r fuches am oes gan y bydd yn annog milfeddygon i'w dynodi fel adweithyddion y tro cyntaf, gan effeithio ar y ffigurau, a bydd yn golygu y bydd gan ffermwyr lai o hyder yn y prawf TB.

- Mae rhai yn cefnogi cyfyngu IRs sydd wedi derbyn canlyniadau prawf clir i'r fuches, ond byddent yn cynnig y dylai ffermwyr allu lladd yr anifeiliaid hyn a derbyn iawndal am hynny.

## 6. Cynigion eraill yr ymgynghoriad

### 6.1 Datblygu pecyn bioddiogelwch safonol ar-lein.

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r syniad o ddatblygu pecyn bioddiogelwch safonol ar-lein er mwyn rhoi arweiniad i geidwaid ar y camau ymarferol y gallent eu mabwysiadu er mwyn helpu i ddiogelu eu gwartheg rhag y clefyd. Roedd nifer fawr yn credu na ddylid ei gyfyngu i becyn ar-lein yn unig, gan fod y rhyngrwyd yn drybeilig o araf mewn rhai rhannau o Gymru. Teimlwyd y dylid cael copi papur hefyd, ac na ddylai'r pecyn ar-lein fyth ddisodli cyngor wyneb yn wyneb.

Gofynnodd llawer o gynrychiolwyr y diwydiant i gael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu'r pecyn, ac awgrymodd eraill y dylai'r byrddau rhanbarthol fod yn gyfrifol am fwrw'r mater hwn ymlaen.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn poeni a fyddai pecyn o'r fath yn ymarferol ac yn fforddiadwy i ffermwyr. Roedd llawer o'r farn bod angen i'r rhanddeiliaid ymroi i'r pecyn yn llwyr er mwyn llwyddo.

Roedd llawer yn credu y dylai'r pecyn fod yn ddigon hyblyg i ystyried amgylchiadau unigol a'r sbardunwyr risgiau a heintiau ym mhob Ardal TB. Roedd rhai'n teimlo y dylai rhestr o fesurau ymarferol er mwyn helpu i ddiogelu busnesau fod ar gael i bob ffermwr. Dylid ystyried pob fferm yn unigol, er mwyn nodi'r ffactorau penodol sy'n effeithio ar ffermydd penodol.

Roedd rhai'n credu y dylai safonau bioddiogelwch fod wedi'u cynnwys eisoes fel rhan o gynlluniau gwarant ffermydd, rheolau hylendid llaeth a gofynion trawsgydymffurfio. Hefyd, teimlwyd na ddylai Llywodraeth Cymru orfod hyrwyddo a datblygu mesurau bioddiogelwch, ond y dylai safonau bioddiogelwch gofynnol fod yn orfodol ar bob fferm.

Roedd llawer o ymatebwyr, yn enwedig milfeddygon, yn credu bod gweithredu mesurau i wella bioddiogelwch ar ffermydd yn aneffeithiol heb gamau gweithredu yn erbyn bywyd gwyllt. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylai clefydau eraill fod yn rhan o'r pecyn ac y dylid cysylltu'r canlyniadau â'r cynlluniau achredu amrywiol sydd ar gael.

Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys:

- Yn ôl y Grŵp Lles Anifeiliaid, *'we believe what needs to be communicated is that the farm environment can also be harbouring infection and the default position should be the likelihood of ever present infection on the farm and in movements on and off the farm to trade, markets and shows. The removal of reactor cattle and two short interval tests does not mean the farm is now disease free'.*

- Dywedodd St James' Vet Group *'having been part of the biosecurity tool that was used in the Gower area 2011-2014, we saw good feedback and improvement on many after educating farmers. A particular benefit was being able to educate farmers on badger ecology and ensuring they were well informed about the disease in badgers and their interaction with cattle. This helped sell biosecurity measures'*.

- Mae Saved and Safe yn credu y dylai pob fferm gynnwys cynlluniau bioddiogelwch – yn seiliedig ar ddull safonol ac wedi'u haddasu o fferm i fferm.

- Dylid ystyried manteision hirdymor cefnogi buddsoddiad cyfalaf ar ffermydd, a allai arwain at welliannau bioddiogelwch mewn ardaloedd ag achosion uchel o'r clefyd. Gall hyn wrthwneud costau rheoli ychwanegol a'r lleihad arfaethedig mewn iawndal.

- Hoffai RSPCA Cymru weld materion bioddiogelwch yn rhan fwy annatod o reoli TB buchol ym mhob ardal. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd TB canolradd ac uchel, lle ceir llawer iawn o achosion o TB mewn buches wrth gynnal profion cyffiniol a thrwy heintiad cyson. Byddai astudiaeth o'r nifer o ffermydd â mesurau bioddiogelwch mewn lle yn ddefnyddiol, ac effaith gweithredu ar achosion o TB mewn buches.

- Gellir rhoi mesurau bioddiogelwch ar fferm ar waith, ond mae pryderon am ddod i gysylltiad â moch daear wrth droi gwartheg allan yn y gwanwyn.

- Mae ffermwyr angen cymorth i ddeall bioddiogelwch a deall nad moch daear yw popeth am y clefyd.

- Mae Iechyd da (Gwledig) yn credu bod angen i unrhyw adnodd ar-lein fod yn hwylus i ffermwyr, ac y dylai gyd-fynd ag ymweliadau Cymorth TB ac adnoddau eraill fel pecynnau data fferm.

- Gall ffynonellau cymorth o feysydd gwahanol beri dryswch, felly mae angen un ffynhonnell gywir.

- Dylid neilltuo arian i ffermwyr fynd at i gyflwyno gwelliannau bioddiogelwch ar eu ffermydd.

**<u>6.2 Cyflwyno terfyn iawndal o £5,000 a pharhau i adolygu'r system iawndal</u>**

Cafwyd sylwadau cymysg i'r syniad o gyflwyno terfyn iawndal o £5,000 yr anifail. Roedd rhai'n cytuno â'r terfyn arfaethedig fel bod elfen iawndal y Rhaglen yn fwy cynaliadwy yn ariannol ac yn decach i bawb. Teimlwyd hefyd y byddai lleihau'r terfyn iawndal yn atal ffermwyr rhag camddefnyddio'r system a'r ychydig rai sy'n elwa ar TB. Roedd llawer o ffermwyr yn cytuno â'r terfyn ac yn dweud na fyddai'r system tablau prisio yn ddewis dymunol.

Dywedodd llawer iawn o ymatebwr ei fod yn debygol iawn o effeithio ar anifeiliaid o werth genetig uchel, ac nad yw'r terfyn yn annog ffermwyr i fuddsoddi mewn teirw o'r radd flaenaf ac y byddai stoc yn gostwng o ran gwerth. Roedd rhai'n teimlo bod y terfyn presennol (£15,000) yn dderbyniol, eraill o'r farn bod terfyn o £10,000 yn briodol, ac eraill yn teimlo y dylid ei ostwng ymhellach i £3,000. Awgrymodd eraill mai terfyn o £2,500 i fuchod masnachol a £10,000 ar gyfer stoc pedigri fyddai'r dewis gorau gan na fyddai'n atal bridwyr rhag buddsoddi mewn stoc o'r safon uchaf, nac yn lleihau safonau gwartheg Cymru. Roedd llawer yn teimlo y dylai'r systemau prisio cyfredol gynnwys darpariaeth i roi lefelau iawndal priodol ar gyfer anifeiliaid o rinwedd a phedigri aruthrol.

Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'n well cysylltu lefelau iawndal â newidiadau o ran ymddygiad a chydymffurfio â gofynion profi, ynysu, bioddiogelwch a phrynu gwybodus.

Roedd eraill yn ffafrio gwneud gwelliannau i'r system brisio gyfredol yn hytrach na gorfodi terfyn. Gall gwelliannau gynnwys panel o briswyr yn gwneud gwaith prisio a/neu wirio hefyd. Cynnig arall oedd cynnal 2 ganolfan gasglu ar gyfer adweithyddion TB (y naill yn y De a'r llall yn y Canolbarth) bob wythnos. Gallai 3 Prisiwr fynychu'r rhain yn ogystal â swyddog monitro prisio. Byddai gwartheg yn cael eu prisio ac yna'n cael eu hanfon i'r lladd-dy, gan leihau'r angen i 5-8 prisiwr deithio ledled Cymru bob wythnos. Byddai disgwyl i ffermwyr anfon gwartheg i'r ganolfan cyn i gludwyr fynd â nhw i'r lladd-dy wedyn. Hefyd, awgrymwyd cynnal diwrnod blynyddol i briswyr, sy'n trafod pob agwedd ar y contract prisio, er mwyn sicrhau bod y system gyfredol yn un gadarn.

Thema gyffredinol gan ymatebwyr ar y pwynt hwn, oedd bod cael yswiriant yn afrealistig a bod pryderon, os oedd yswiriant ar gael, na allai ffermwyr fforddio'r premiymau, yn enwedig mewn Ardaloedd TB Uchel neu os oedd ganddynt hanes o'r clefyd. Efallai y byddai yswiriant yn fwy ymarferol pe bai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chwmni yswiriant wedi'i achredu gan y Llywodraeth er mwyn cynorthwyo a darparu'r polisi yswiriant angenrheidiol i ffermwyr am bris fforddiadwy.

Roedd y sylwadau eraill yn cynnwys:

- Nid yw'r drefn iawndal bresennol yn agos at yr hyn sydd ei angen er mwyn cynnwys costau colli anifail.

- Roedd rhai'n credu bod angen system iawndal deg sy'n ystyried y straen a'r pwysau ar ffermwyr yn ogystal â chydnabod stoc pedigri.

- Ni ddylai ffermwyr dalu iawndal i ffermwyr am wartheg wedi'u heintio, gan fod diwydiannau eraill yn gorfod ysgwyddo costau 'cynhyrchion diffygiol'.

- Roedd gan RWAS *'some concerns over placing a cap on the compensation payable per animal. Wales has some of the most superior cattle genetics in the UK which is often the culmination of generations of careful breeding and stockmanship skills. Some will be disadvantaged by this proposal and this measure needs careful consideration before its introduction'*.

- Byddai ffermwyr ond yn derbyn terfyn iawndal os oedd ffermwyr yn cael rheoli bywyd gwyllt.

- Os yw'r ffermwr yn gallu darparu anfoneb neu dystiolaeth o werth, yna dylid parchu hynny.

**6.3 Gostwng iawndal ceidwaid sydd am symud gwartheg rhwng unedau o fewn yr un fuches mewn buchesi sydd â TB cronig**

Cymysg oedd yr ymateb i'r cynnig hwn. Roedd rhai'n credu ei bod hi'n annheg cosbi ffermwyr am symud gwartheg o fewn parseli tir yn eu Rhif y Daliad (CPH) gan amlinellu'r trafferthion y byddai hyn yn eu hachosi i fusnesau, a'r pryderon o ran lles gwartheg wedyn.

Roedd llawer yn credu y dylid cyfyngu ar symudiadau o fewn buches wedi'i heintio â TB, yn enwedig buchesi mawr, er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu. Mae'r BVA/BCVA yn arbennig yn cefnogi'r cynnig hwn ar gyfer buchesi cronig. Roedd rhai'n poeni y byddai cyfuno Rhifau Daliadau yn gwanhau'r broses o reoli'r clefyd gan y byddai'n arwain at lai o gofnodi symudiadau gwartheg, ac roedd rhai'n cytuno na ddylai'r Llywodraeth orfod ysgwyddo'r gost os oes perygl cynyddol oherwydd symudiadau o fewn buchesi.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Cytuno â'r cynnig hwn. Bydd y rheolau CPH newydd yn helpu gyda hyn ac yn egluro pan fo angen PrMT, a bydd yn osgoi'r angen i gludo gwartheg yn bell rhwng safleoedd sy'n rhan o'r un CPH yn swyddogol.

- Cytuno – dylai ffermwyr fod yn gyfrifol am unrhyw risgiau maen nhw'n eu cymryd.

- Gallai cyfyngu ar symudiadau gwartheg o fewn buches dan gyfyngiadau achosi problemau neu faterion rheoli a lles. Os caiff ei fabwysiadu, bydd angen ei gyflwyno'n ofalus gan ystyried ffactorau o'r fath.

- Byddai'r cynnig hwn yn effeithio ar allu ffermydd llaeth i arallgyfeirio i unedau magu ar gyfer llaethdai lleol.

- Cytuno â'r cynnig hwn gan ei fod yn lleihau symudiadau rhwng buchesi ac yn helpu i reoli'r clefyd a chostau.

- Cwestiynu polisi sy'n gorfodi unigolyn o'r rhyddid i gynnal ei fusnes fel y gwêl yn dda.

- Mae ffermwyr yn sefydlu unedau i wneud gwaith penodol (e.e. unedau sych ac ati) sy'n aml yn bell o'r brif uned, ac ni ddylai ffermwyr gael eu cosbi am symud gwartheg rhwng yr unedau hyn.

### 6.5 Cysylltu cydymffurfiaeth ymhellach â thaliadau cymhorthdal cynllun y Polisi Amaethyddol Cyffredin (neu unrhyw gynlluniau cymhorthdal yn y dyfodol.

Roedd cryn dipyn o ymatebwyr yn credu mewn rhoi cosb ariannol i rai nad ydynt yn dilyn y rheolau. Roedd rhai'n cytuno bod cosbau trawsgydymffurfio yn ffordd dda o gyflawni hyn, fodd bynnag, roedd nifer fawr o ymatebwyr yn anghytuno â'r dull hwn gan nad yw pob ffermwr yn hawlio cymorthdaliadau, fodd bynnag, ni fyddai'r rhai sy'n torri'r rheolau ond ddim yn hawlio yn cael eu cosbi. O'r rhai a anghytunai â'r cynnig, roeddent yn credu y dylid rhoi cosb benodedig i rai sy'n torri'r rheolau, fel bod dull cyson o fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio.

Roedd y rhai sy'n cytuno â'r cosbau trawsgydymffurfio yn teimlo y dylai cosbau fod yn gymesur ac yn briodol, ac y dylid rhoi hyblygrwydd i amgylchiadau lleihaol a all atal ffermwr rhag dilyn y rheolau.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Derbyn cosbau lle mae diffyg parch llwyr at y rheolau, ond rhaid i'r gofynion fod yn rhesymol.

- Dylai rhywun sy'n methu â dilyn y rheolau gael dirwy (ffi benodol) yn hytrach na cholli canran o'r cymhorthdal. Mae cynhyrchwyr mwy o faint yn cael mwy o ddirwy na chynhyrchwyr llai am yr un drosedd.

- Roedd rhai sy'n gwrthwynebu defnyddio cosbau trawsgydymffurfio am fethiannau'n gysylltiedig â phrotocolau profi TB yn credu bod y cosbau cyfredol sydd ar waith o fewn y ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid yn ddigonol.

- Cyn gweithredu cosbau trawsgydymffurfio, dylid o leiaf trafod beth ellir ei ystyried yn amgylchiadau lleihaol neu'n force majeure a fyddai'n caniatáu i beidio â gorfodi cosbau.

- Dylai bod lefel gynyddol o gosbau ariannol am brofion hwyr a chosbau tebyg am achosion eraill o dorri rheoliadau.

- Cytuno ar gosbau trawsgydymffurfio i ran nad ydynt yn dilyn y rheolau. Fodd bynnag, rhaid iddynt fod yn ymarferol, yn gymesur a dealladwy.

- Mae Iechyd da (Gwledig) yn cytuno â'r cynigion ond yn poeni na fydd hyn yn ysgogi ffermwyr nad ydynt yn hawlio taliadau fferm.

**6.6 Cynigion Unedau Pesgi - bydd rhaid i Unedau Pesgi Eithriedig gydymffurfio â rheolau mwy llym neu ni fydd Unedau Pesgi Eithriedig yn cael eu caniatáu yn yr Ardal Risg Isel mwyach. Unedau Pesgi Cymeradwy i barhau i gael eu gwahardd yn yr Ardal TB Isel.**

Nid oedd unrhyw gytundeb clir ar Unedau Pesgi Eithriedig gyda rhai'n cytuno i'w tynnu o Ardaloedd TB Isel ac eraill yn awgrymu y dylid eu cynnal ond gyda rheoliadau llymach gan eu bod yn hanfodol i wartheg heb eu pesgi.

Awgrymodd eraill y dylid creu trydydd categori o Uned Besgi ar gyfer yr holl stoc y tynghedwyd i'w lladd. Gallai hyn leddfu'r pwysau ar geidwaid sydd dan waharddiad yn ystod yr hydref, pan mae angen prynu stoc cadw.

Roedd sylwadau'n cynnwys:

- Mae RSPCA Cymru yn credu os bydd Unedau Pesgai Eithriedig yn cael eu caniatáu mewn Ardal TB Isel, yna dylai'r gwartheg ddod o ffermydd â'r risg TB lleiaf, h.y. ffermydd nad ydynt wedi dioddef achos o'r clefyd am nifer penodol o flynyddoedd (e.e. 3 blynedd a mwy). Dylai penderfyniad fod yn seiliedig ar nifer yr achosion sy'n digwydd mewn Unedau Pesgi Eithriedig sydd mewn Ardal TB Isel ac felly'r risg a gynrychiolir ganddynt.

- Ni ddylid caniatáu Unedau Pesgi Eithriedig mewn Ardal TB Isel, dylid lladd anifeiliaid er mwyn lleihau'r perygl o gyflwyno'r clefyd i'r ardal.

- Roedd llawer yn gweld manteision cael Unedau Pesgi Eithriedig, ac yn hytrach na'u gwahardd nhw'n llwyr mewn Ardal TB Isel, roedd rhai'n derbyn yr angen iddynt ddilyn y rheolau profi 6 mis a rheolau llymach eraill.

- Hoffai CLA weld faint o fusnesau fyddai'n cael eu heffeithio pe bai'r Unedau Pesgi Eithriedig yn cael eu diddymu mewn Ardal TB Isel.

- Mae RWAS yn anghytuno â'r syniad o ddiddymu'r Unedau Pesgi Eithriedig. Maen nhw'n cynnig gwasanaeth pwysig i ffermwyr sydd wedi'u heffeithio gan achos o'r haint ac yn aml yn angenrheidiol ar gyfer llif arian y busnes ac ar sail lles anifeiliaid.

- Dylid gwneud popeth i ganiatáu'r Unedau Pesgi Eithriedig ac Unedau Pesgi Cymeradwy i fodoli gan eu bod nhw'n achubiaeth i ffermwyr â gormod o stoc gael o leiaf un ffordd o basio stoc ifanc ymlaen - ond am bris gostyngol er hynny.

- Dylid caniatáu symudiadau trwy farchnadoedd da byw er mwyn galluogi rhagor o gystadleuaeth am anifeiliaid y ffermwr.

- Cytuno â'r cynnig i ddiddymu Unedau Pesgi Eithriedig o Ardal TB Isel. Cynnig gorfodi cyfyngiadau mewn Ardal TB Canolradd fel mai dim ond gwartheg o ardaloedd Isel a Chanolradd y gallant eu derbyn ac nid rhai o ardaloedd uchel.

- Dylai profion Unedau Pesgi Eithriedig fod yn seiliedig ar eu bioamrywiaeth. Gall safonau uchel ganiatáu profion bob 12 mis, a gall profion bob 6 mis fod yn ofynnol mewn safonau isel.

- Mae'r Grŵp Lles Anifeiliaid yn poeni am gadw Unedau Pesgi Eithriedig mewn Ardaloedd TB Isel ac yn teimlo y byddai'n amserol eu diddymu bob yn dipyn.

- Dim ond mewn Ardaloedd TB Uchel y dylid caniatáu Unedau Pesgi Eithriedig ac Unedau Pesgi Cymeradwy, a'u bod yn cael eu monitro'n fwy gofalus.

- Dylai bod gofynion PrMT cyn symud i Unedau Pesgi Eithriedig.

- Dylai Unedau Pesgi Eithriedig fod dan do yn unig, gyda bioamrywiaeth dda. Ni ddylai bod mwy o risg o gadw Unedau Pesgi Eithriedig.

- Dylid cael gwared ar ofynion profi Unedau Pesgi Eithriedig, fel yn Lloegr.

- Dylai Unedau Pesgi Cymeradwy ond allu olrhain gwartheg o'r ardal y maen nhw wedi'i lleoli. Awgrymodd eraill y dylai bod mwy o gymhellion i werthu i Unedau Pesgi Cymeradwy er mwyn lleihau nifer yr anifeiliaid ar fferm ag achos o'r haint.

**6.7 Cadw, ond adolygu ein dull goddefol cyfredol o oruchwylio TB buchol mewn anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol**

Roedd llawer iawn o ymatebwyr yn credu y dylai'r un rheolau fod yn berthnasol i anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol ag ydynt i wartheg, o ran profion blynyddol a difa gwartheg adweithiol. Er mwyn hwyluso hyn, roedd llawer yn credu y dylai cofrestr o anifail nad yw'n fuchol fod yn orfodol.

Roedd eraill yn credu bod goruchwyliaeth oddefol yn gweithio, ond y gellir ei gwella trwy ofalu bod ceidwaid anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol yn fwy ymwybodol o arwyddion a symptomau'r clefyd a beth sydd angen cadw llygad amdanynt.

Roedd rhai'n awgrymu y dylid canolbwyntio ar brofi anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol a gwneud hynny mewn ardaloedd ag achos o TB mewn buches.

Roedd sylwadau'n cynnwys:
- Awgrymodd BVA/BCVA y dylid ymestyn Gorchymyn 2011 i anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol sy'n cael eu ffermio, ac eithrio anifeiliaid sw.

- Olrhain lamaod anwes, geifr a cheirw ac ati trwy gronfa ddata er mwyn gwneud rhifau daliad a thrwyddedau symud yn orfodol i alpacaod a lamaod fel y gellir eu profi'n orfodol fel gwartheg a thrin achosion o TB trwy ladd anifeiliaid sydd wedi adweithio i'r prawf TB.

- Nid yw'n credu bod camelidau yn risg ddibwys, dylent gael eu profi yn union fel gwartheg.

- Dylai holl geidwaid anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol gael eu cofrestru, a dylid cynnal profion fel bo'r angen.

- Mae anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol yn peri risg i'w perchnogion. e.e. risgiau i blant mewn sw mwytho.

- Mae angen profi buchesi nad ydynt yn rhai buchol sy'n agos i fuchesi gwartheg â phroblem TB yn rheolaidd.

- Mae yna fylchau o ran goruchwylio a rheoli anifeiliaid nad ydynt yn rhai buchol, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynigion sy'n mynd i'r afael â'r risgiau.

- Ystyried helpu ffermwyr i ddiogelu eu daliadau rhag ceirw mewn ardaloedd sy'n cynnwys ceirw gwyllt, i'w hatal rhag heintio eu gwartheg.

- Angen dull mwy trefnus o oruchwylio camelidau a rhywogaethau risg uchel eraill, yn enwedig gan eu bod yn fwyfwy poblogaidd.

**6.8 Cyflwyno system Prynu Gwybodus sy'n debyg i'r System Masnachu ar Sail Risg sydd ganddynt yn Seland Newydd ac a arferai gael ei defnyddio yn Awstralia.**

Roedd llawer yn cefnogi cynnig i gyflwyno system fel y byddai ffermwyr yn gwybod statws y gwartheg maen nhw eu prynu. Mynegodd rhai eu rhwystredigaeth nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd, ac y gall hynny ond bod yn beth da. Oherwydd hyn, cytunodd llawer y dylid cael system orfodol gyda hanes o brofion y fuches a'r anifeiliaid yn cael ei ddarparu wrth werthu. Roedd rhai ymatebwyr ychwanegol yn credu y dylai'r wybodaeth sydd ar gael i brynwyr gynnwys nifer y symudiadau i ganolfannau gwahanol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid gwahardd symudiadau o ardaloedd risg uwch i ardaloedd risg is. Roedd llawer o blaid mabwysiadu system o'r fath ar lefel Prydain er mwyn sicrhau bod yr un wybodaeth ar gael ac yn cael ei harddangos mewn marchnadoedd ledled Prydain.

Soniodd llawer am yr angen i sefydlu cronfa ddata fel bod modd gwirio'r wybodaeth a'i bod ar gael i bawb. Roedd rhai'n cefnogi system Seland Newydd gan ei bod yn canolbwyntio ar y fferm unigol tra'r oedd eraill yn teimlo y dylai ffermwyr gael eu hannog i ymuno â chynllun iechyd y fuches. Er mwyn cael system lwyddiannus, dywedodd llawer o'r ymatebwyr bod angen ei phlismona'n iawn fel na allai ceidwaid hawlio bod eu buchesi'n rhydd o'r clefyd, pan nad yw hynny'n wir.

Roedd eraill, yn enwedig y rhai sy'n ffermio yn yr Ardaloedd TB Uchel, yn poeni am yr effaith bosib ar fasnach, ac roedd gan rai bryderon am gyfrinachedd.

Roedd llawer yn credu y byddai cynllun TB CHeCS yn fanteisiol dros ben ac yn ffordd fuddiol o ddangos bod buchesi mewn llai o risg. Hefyd, awgrymodd rhai y dylai buchesi sy'n rhan o'r cynllun CheCS gael eu heithrio rhag ambell reoliad.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Cytuno bod angen rhoi mwy o wybodaeth, gan gynnwys statws clefyd, i brynwyr.

- Bydd System Masnachu ar sail Risg (Prynu Gwybodus) yn cael effaith dorcalonnus ar bob fferm mewn Ardal TB Uchel, yn enwedig ar fuchesi sugno eidion, p'un a ydynt wedi cael achos o TB neu beidio, a waeth beth yw'r camau y gallant fod wedi'u cymryd i ddiogelu eu buchesi rhag yr haint.

- Bydd systemau gwirfoddol neu orfodol yn annheg i ffermwyr mewn Ardaloedd TB Uchel gan na fyddai prynwyr eraill o bosib am brynu stoc ganddynt, neu fe allent gael pris is am eu stoc na gwartheg o ardaloedd risg isel/canolradd.

- Nododd Cangen Gwent o'r FUW y bydd *'informed purchasing as described will lead to needless suspicion by potential purchasers and will seriously affect business in high TB areas and could lead to closure of livestock markets'*.

- Mae'r Grŵp Lles Anifeiliaid yn awgrymu cyflwyno gwerth rhifol sy'n cyfateb i nifer y blynyddoedd y bu'r fuches OTB (statws heb TB swyddogol) yn rhydd o TB.

- Yn ôl y Grŵp Lles Anifeiliaid, *'it may be timely to introduce some mandatory risk based trading controls, particularly if the aim is for the Low TB Area to apply for Officially TB Free Status'.*

- Mae gan Seland Newydd ac Awstralia fesurau i fynd i'r afael â bywyd gwyllt. Byddai ffermwyr yn fwy tueddol i ymuno â'r system hon pe bai'r un mesurau'n cael eu cyflwyno yng Nghymru.

- Mae RWAS *'supports IP by virtue of a risk assessed score to each holding based upon breakdown history'*.

- Mae llawer o wybodaeth i'w hystyried wrth brynu anifail yn y farchnad. Mae pryderon y bydd gwybodaeth am hanes TB y fuches yn mynd ar goll yng nghanol yr holl wybodaeth arall.

- Mae'n gwahaniaethu yn erbyn ffermwyr oedd â gwartheg gyda'r clefyd ar un adeg, ond sydd bellach heb waharddiadau.

- Dylid ond cyflwyno Prynu Gwybodus lle bu gostyngiad sylweddol mewn achosion o TB mewn Ardaloedd TB Uchel.

- Ni ddylai ffermydd mewn Ardaloedd TB Uchel gael eu hystyried yn risg uchel a dylai system fod ar waith i wahaniaethu rhwng risgiau ffermydd mewn ardaloedd TB uchel.

- Dylid ehangu'r grant sydd ar gael i farchnadoedd da byw. Nid yw pawb sydd wedi cael grant yn dangos y wybodaeth gywir, yn aml iawn rhif lot a dyddiad geni'r anifail. Dylid eu harchwilio er mwyn gofalu eu bod yn dangos y wybodaeth gywir gan eu bod yn derbyn arian cyhoeddus.

- Dylai ffermwyr (hyd yn oed dim ond rheiny mewn Ardaloedd TB Uchel) gael eu hannog i ymuno â CheCs sy'n cynnig cynllun seiliedig ar risg tebyg i'r un yn Seland Newydd. Mae llawer o ffermwyr mewn Ardaloedd TB Uchel sydd erioed wedi cael TB a gallai olygu enillion gwell iddynt wrth werthu gwartheg.

- Mae llawer yn cefnogi cynigion ar gyfer prynu gwybodus gwell yn amodol ar fesurau i sicrhau bod gofynion a phrotocolau diogelu data wedi'u bodloni.

- Dylai Prynu Gwybodus hefyd gynnwys cynlluniau iechyd y fuches a phrofi ar gyfer clefydau eraill fel BVD, Leptospirosis, IBR a Johne. Mae anifeiliaid iachach yn llai agored i salwch a chlefydau.

- Os yw IP i lwyddo, mae angen cael gwared ar stigma cael TB – yn enwedig mewn Ardaloedd TB Isel.

- Mae tebygolrwydd y bydd premiwm ar gyfer anifeiliaid diglefyd yn sgil grymoedd y farchnad.

**6.9 Ailedrych ar drefniadau llywodraethu'r Rhaglen Dileu TB.**

Nid oedd cytundeb barn ynghylch sut ddylai'r Byrddau weithredu, gyda rhai'n awgrymu y dylai Byrddau gael mwy nag un ardal oherwydd y gallent feithrin dull ehangach o ystyried risgiau gwahanol. Awgrymodd eraill y dylid sefydlu bwrdd ar gyfer pob ardal.

Cafwyd awgrym y dylai'r Byrddau gynnwys cynrychiolydd o'r maes ecoleg yn ogystal ag arolygiaeth allanol. Hefyd, awgrymwyd y dylai Byrddau ganolbwyntio mwy ar weithredu, a'u bod yn gallu cyfathrebu polisïau cyfredol i'r gymuned ehangach.

Pwysleisiodd llawer yr angen i weithio'n well gyda'n gilydd, gyda mwy o gydweithio rhwng ffermwyr, milfeddygon a Llywodraeth. Hefyd, awgrymodd rhai y dylai'r gwaith o gadw TB dan reolaeth gael ei reoli a'i ariannu gan gorff annibynnol.

Roedd sylwadau'n cynnwys:
- Annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y gymuned amaeth wedi'i chynrychioli'n iawn.

- Mae'r Marches Badger Group yn credu y dylai aelod o sefydliad bywyd gwyllt e.e. y Badger Trust fod yn rhan o drefniadau llywodraethu'r Rhaglen.

- Rhaid ystyried ble mae Bwrdd y Rhaglen yn sefyll mewn perthynas â Grwpiau Rhanddeiliaid eraill Llywodraeth Cymru, e.e. AHWFG, y Grŵp Partneriaeth Strategol a grwpiau newydd Brexit.

- Dylai Byrddau barhau i roi cymorth, a chael eu cadeirio gan naill ai swyddogion Llywodraeth Cymru neu'r diwydiant.

- Mae'r rhaglen angen parhad. Dylid ystyried model posib tebyg i un Seland Newydd a dylai gynnwys pŵer a rhannu costau gwirioneddol.

## 7. Sylwadau eraill

Cafwyd nifer o sylwadau eraill ar y Rhaglen nad oeddent yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r cynigion penodol. Mae'r sylwadau hyn wedi'u cofnodi ar wahân a byddant yn cael eu hystyried yn llawn.

## 8. Camau nesaf

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb am roi o'u hamser i ymateb i'n hymgynghoriad ar y Rhaglen o'r newydd ar gyfer Dileu TB. Bydd y ddogfen hon a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ynghyd ag argymhellion ar y ffordd ymlaen. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet yn cyflwyno datganiad ar y Rhaglen o'r newydd i Ddileu TB ddechrau Mai 2017.